

---

## Agenda

---

Teitl y cyfarfod: **Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus CNC**

Dyddiad y cyfarfod: **Dydd Mercher 19 Gorffennaf 2023**

Dyddiad y cyfarfod: **9:30 – 12:55**

Lleoliad: **Microsoft Teams**

Ymunwch ar eich cyfrifiadur, ap neu ddyfais ystafell

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

[Lawrlwytho Teams](#) | [Ymuno ar-lein](#)

**Neu ffoniwch (sain yn unig)**

[+44 29 2105 5545](tel:+442921055545), [406917254#](tel:+442921055545) Y Deyrnas Unedig, Caerdydd

---

### Amser

### Eitem

---

**09:30**

5 munud

#### **Eitem 1 Cyfarfod Agored**

- Croeso
- Datganiad o Fuddiannau
- Esbonio gweithrediad y cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

**Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.**

**09:35**

5 munud

#### **Eitem 2 Adolygu cofnodion a log gweithredu**

**2A. Adolygu cofnodion cyhoeddus cyfarfod 18 Mai**

**2B. Adolygu'r log camau gweithredu cyhoeddus**

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

**CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r log gweithredu.**

---

---

**09:40** **Eitem 3 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd**

5 munud

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw

**Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.**

---

**09:45** **Eitem 4 Adroddiad y Prif Weithredwr**

20 munud

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

**Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol a diweddarau'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol.**

**Cyf papur: 23-07-B01**

---

**10:05** **Eitem 5 Diweddarau Adroddiadau Pwyllgorau a Fforymau**

10 munud

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgor

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 22 Mai a 5 Mehefin

**Cyf papur: 23-07-B02**

Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Pwyllgor Cyllid – 19 Mehefin

**Cyf papur: 23-07-B03**

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 13 Gorffennaf

Pwyllgor Ystadau Tir

Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 7 Mehefin

**Cyf papur: 23-07-B05**

Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 23 Mehefin a 29 Mehefin

**Cyf papur: 23-07-B06**

Diweddariadau Fforwm

Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Cyf papur: 23-07-B07**

Fforwm Pysgodfeydd Cymru

Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru

**Crynodeb: NODI diweddariadau pwyllgorau'r Bwrdd, o fewn a thu allan i unrhyw gyfarfodydd a gynhelir.**

---

**10:15** **Eitem 6 Adroddiad Perfformiad Cyllid**

15 munud

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

**Crynodeb: NODI'R sefyllfa ariannol ddiweddaraf**

**Cyf papur: 23-07-B09**

---

**10:30**  
**20 munud**

**Eitem 7 Adroddiad Diwedd Blwyddyn Dangosfwrdd  
Perfformiad y Cynllun Busnes 2022/23 ac Adroddiad  
Perfformiad Mewnol 2022/3**

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr  
Mynychwyr: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol  
a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni; Kirsten Hughes, Cynghorydd  
Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

**Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Diwedd Blwyddyn  
Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes 2022/23 ac  
Adroddiad Perfformiad Mewnol 2022/3**

**Cyf papur: 23-07-B10**

---

**10:50**  
**15 munud**

**Eitem 8 Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2022-23**

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a  
Datblygu Corfforaethol  
Cyflwynwyr: Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Sefydliadol; Lyn  
Williams, Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl

**Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol y Gymraeg  
2022-23**

**Cyf papur: 23-07-B11**

---

**11:05**  
**15 munud**

**Toriad**

---

**11:20**  
**30 munud**

**Eitem 9 Cynllun Busnes Drafft 2023-24**

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu  
Corfforaethol

Cyflwynwyr: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r  
Swyddfa Rheoli Rhaglenni; Kirsten Hughes, Cynghorydd Arbenigol  
Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

**Crynodeb: CYMERADWYO Cynllun Busnes Drafft 2023-24**

**Cyf papur: 23-07-B12**

---

**11:50**  
**30 munud**

## **Eitem 10 Crynodeb Myfyrdodau ar Gynllunio Llesiant Lleol yng Nghymru**

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu  
Cyflwynwyr: Yr Athro Calvin Jones; Fen Turner, Arweinydd Tîm Adnoddau Naturiol a Strategaeth a Pholisi Llesiant; Martyn P Evans, Pennaeth Gweithrediadau y De-orllewin; Holly Butterworth, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: Adnoddau Naturiol a Llesiant

**Crynodeb: Myfyrdodau – I drafod y myfyrdodau cryno ar gynllunio llesiant lleol yng Nghymru, cyfleoedd a risgiau i CNC**

**Cyf papur: 23-07-B13**

---

**12:20**  
**10 munud**

## **Eitem 11 Rhagolwg y Bwrdd**

Noddwr: Syr David Henshaw

Cyflwynydd: Natalie Williams, Arweinydd Tîm a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Crynodeb: TRAFOD Rhagolwg y Bwrdd**

**Cyf papur: 23-07-B14**

---

**12:30**  
**5 munud**

## **Eitem 12 Unrhyw fater arall**

---

**12:35**      **Diwedd y Cyfarfod**

---

**12:35**  
**20 munud**      **Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus**

---

**12:55**      **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus**

---

## Cyfardodydd Bwrdd

Rhif y cam	Categori'r cyfarfod	Dyddiad y cyfarfod	Rhif yr eitem	Rhif y para	Paper Sponsor	Cam gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/diweddariadau
16	Cyhoeddus	27/01/2023	7	32	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Dylai'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ystyried costau llawn yr Ardaloedd Draenio Mewnol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid	Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau; Rob Bell, Pennaeth Cyllid	27/09/2023	Parhaus	Dylid ystyried hyn yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Hydref.
18	Cyhoeddus	27/01/2023	9	47	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol y Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu	CAM GWEITHREDU: Dylai'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ddatblygu dull gogyfer cynnal sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n seiliedig ar leoedd	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd	31/12/2023	Parhaus	Dylid datblygu opsiynau ar gyfer hwyluso'r Bwrdd i ymgysylltu â'r cyhoedd. Dylid cytuno ar y dull gyda'r Cadeirydd, y Pennaeth Llywodraethu newydd ac Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.
35	Cyhoeddus	23/03/2023	4	18	Clare Pillman Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Dylid cynnwys cyflwyniad yn ymwneud â lleihau llygredd yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol	Nadia DeLonghi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Cymru	31/08/2023	Parhaus	Nodwyd bod fformat y diweddariad hwn yn cael ei drafod gyda Ceri Davies a Gareth O'Shea. Y bwriad yw cynnal sesiwn strategol yn ymwneud â llygredd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
37	Cyhoeddus	23/03/2023	8	60	Ceri Davies Cyfarwyddwr Gweithredol EPP	CAM GWEITHREDU: Dylai'r Prif Gyngorydd, Pysgodfeydd, ddychwelyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf gydag awgrymiadau ynghylch dull radical o ymdrin â'r trafferthion a ddaw i ran eogiaid.	Ben Wilson, Prif Gyngorydd, Pysgodfeydd	25/09/2023	Parhaus	Ystyrir dull diwygiedig o ymdrin â diweddariadau ar y pwnc hwn. Mae Ben Wilson a Ruth Jenkins yn trafod hyn. Bydd y drafodaeth yn cael ei chynnal yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig ym mis Hydref.
49	Cyhoeddus	18/05/2023	7	31	Syr David Henshaw Clare Pillman, Prif Weithedwr	CAM GWEITHREDU: Dylai'r Arweinydd Tîm ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd gysylltu ag aelodau'r Bwrdd ynglŷn â dewis mentor ar gyfer prentis y Bwrdd.	Arweinydd Tîm, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Dirprwy Ysgrifenydd y Bwrdd	14/06/2023	Cwblhawyd	
50	Cyhoeddus	18/05/2023	11	68	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Dylai'r Ysgrifenyddiaeth anfon nodyn at y Bwrdd ynglŷn â threfniadau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.	Ysgrifenyddiaeth	14/06/2023	Cwblhawyd	

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	Dydd Mercher 19 Gorffennaf 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol – SESIWN GYHOEDDUS
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-07-B01
<b>Noddir y papur gan:</b>	Clare Pillman, Prif Weithredwr
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Clare Pillman, Prif Weithredwr
<b>Cyflwynir y papur gan:</b>	Clare Pillman, Prif Weithredwr
<b>Diben y papur</b>	Discussion
<b>Crynodeb</b>	Nod y papur yw codi ymwybyddiaeth o'r materion a drafodwyd

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd wedi bod yn brysur iawn ac yn sych iawn. Rydym bellach wedi datgan cyfnod hir o dywydd sych yn swyddogol, gyda phopeth a ddaw yn sgil hynny, ac rydym yn cynnal trafodaethau cyson â Llywodraeth Cymru a'r Cwmnïau Dŵr. Rydym wedi gweld y cyfnod hiraf a mwyaf dinistriol o danau gwyllt ar ein Hystad ers blynnyddoedd lawer (os nad erioed). Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn yn y cyfarfod.
2. Yn fwy cadarnhaol, dechreuodd mis Mehefin gyda lansiad ein Cynllun Corfforaethol yn y Senedd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys areithiau ysbrydoledig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker. Rhoddodd y Gweinidog adborth cadarnhaol iawn ar ein Cynllun Corfforaethol, gan ei ddal i fyny fel enghraifft i sefydliadau eraill ei ddilyn. Roedd ystod eang o randdeiliaid a phartïon â buddiant yn bresennol yn y digwyddiad, gydag Aelodau eraill o'r Senedd (ASau) yn galw heibio fel yr oedd eu hamserlenni'n caniatáu.
3. Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd wedi bod yn ffocws ar gyfer Cyfarfodydd Staff mewn lleoliadau ledled Cymru yn ystod mis Mehefin. Cynlluniwyd y rhain i ddod â chydweithwyr ynghyd a chyflwyno'r Cynllun newydd gyda thrafodaethau ar ein

gwerthoedd a'n mewnwelediadau gan ein Tîm Arwain ynghylch yr hyn mae'r Cynllun newydd yn ei olygu iddynt. Mae'r sylwadau hyn wedi creu cryn argraff arnaf sawl gwaith, ac rwy'n falch o'n Tîm Arwain am gyfrannu at y Cyfarfodydd mewn ffordd mor feddylgar a chadarnhaol. Cafodd cydweithwyr gyfle hefyd i ddysgu mwy am ein Rhaglen Trawsnewid Pobl, Adfywio a Natur a Ni mewn amgylchedd hamddenol, gyda'r egni a'r sgysiau yn parhau dros ginio. Mae aelodau'r Bwrdd wedi mynychu llawer o'r sesiynau hyn, ac mae cydweithwyr wedi eu gwerthfawrogi'n fawr.

4. Siaradais am y Cynllun Corfforaethol newydd mewn Fforwm Polisi Cymru ar 9 Mehefin, ac rwyf wedi cael cyfarfod da gydag aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru i drafod sut y gallwn weithio'n agosach i gyflawni ei amcanion. Rwyf wedi cael cyfarfodydd gyda Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru (IEPAW), a Natalie Prosser, Pennaeth Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn Lloegr. Rwyf hefyd wedi cael cyfarfodydd rhagarweiniol gyda Lawrence Slade, Prif Swyddog Gweithredol newydd y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni, a Dr Richard Irvine, y Prif Swyddog Milfeddygol newydd.
5. Ychydig ar ôl cyfarfod diwethaf y Bwrdd, treuliais ddiwrnod defnyddiol iawn gydag Ian Dunn, Prif Weithredwr Plantlife UK. Aethom i Warchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, ynghyd ag aelodau o'i dîm ef a'n timau ni, gan gynnwys Dr Rosie Plummer, sy'n rhan o'r ddau dîm! Rwy'n credu y byddwn yn gweld mwy o gydweithio yn y dyfodol, yn enwedig o ran adfer glaswelltir.
6. Ganol fis Mehefin, teithiais i Stirling ar gyfer Cyfarfod Llawn Asiantaethau Cadwraeth Natur Ewrop (ENCA), a gynhaliwyd gan NatureScot. Thema'r cyfarfod oedd defnydd tir a newid defnydd tir wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Roedd y penwythnos yn cynnwys ymweliad safle â Flanders Moss a gwarchodfa'r RSPB yn Gartocharn ar Loch Lomond i weld gwaith adfer tirwedd a chynefinoedd sydd â'r nod o atal colli bioamrywiaeth ar y safle erbyn 2030. Arweiniodd Nick Bialynicki-Birula o'n tîm Rheoli Adnoddau Naturiol (NRM) sesiwn ar Newid Trawsnewidiol, ac roedd yn wych gweld Cymru'n arwain y trafodaethau gyda gwledydd eraill. Roedd mis Mehefin yn gyfnod prysur i Gyrrff Cadwraeth Natur y DU, gyda chyfarfod yng Ngogledd Iwerddon, a fynychwyd gan Ruth Jenkins ar fy rhan, ac yna cyfarfod y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), a fynychwyd gan yr Athro Steve Ormerod. Dyma oedd cyfarfod olaf Colin Galbraith fel Cadeirydd y JNCC, cyn iddo symud i ymgymryd â rôl Cadeirydd NatureScot.

### Staff uwch

7. Mae Christian Wilcox bellach wedi ymuno â CNC fel Pennaeth Prosiectau Strategol. Mae recriwtio yn parhau ar gyfer swydd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru ac ar gyfer swydd y Pennaeth Llywodraethu.

## Materion Strategol

### Llwyddiant Cyllid Partneriaeth Natur am Byth

8. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu £4.1 miliwn i bartneriaeth Natur am Byth i achub rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf yng Nghymru a chefnogi camau gweithredu cymunedol dros natur. Mae hyn yn dilyn dwy flynedd o gynllunio manwl gan CNC a'n naw partner Sefydliad Anllywodraethol Amgylcheddol (eNGO). Bydd y cyfnod cyflawni pedair blynedd gwerth £8 miliwn yn dechrau yr haf hwn ac mae'n cynnwys un ar ddeg o brosiectau sy'n canolbwyntio ar 67 o rywogaethau sydd dan fygythiad, ynghyd â nifer o fentrau ledled Cymru i ehangu cyfranogiad a chysylltiad y cyhoedd â natur.
9. Bydd hon yn un o'r rhaglenni cadwraeth mwyaf uchelgeisiol erioed yng Nghymru, a bydd hefyd yn cynnig llw o weithgareddau ymgysylltu a gwirfoddoli i ddod â phob rhywogaeth yn fyw, ailgysylltu pobl â natur ac adeiladu ar y gwerth mae diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn ei roi ar fyd natur. Bydd pob prosiect sy'n seiliedig ar leoedd yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dirywiad rhywogaethau, gan weithio gyda channoedd o dirfeddianwyr a gwirfoddolwyr cymunedol i sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer adfer natur – yn uniongyrchol i gefnogi ein gweledigaeth gorfforaethol newydd o bobl a natur yn ffynnu gyda'i gilydd.
10. Mae Natur am Byth yn cael ei gydlynw gan CNC mewn partneriaeth â Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod; Buglife; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn; Gwarchod Glöynnod Byw; Plantlife; Y Gymdeithas Cadwraeth Forol; yr RSPB; ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Vincent.
11. Bydd dros ugain o staff newydd yn gweithio ar draws y bartneriaeth, a byddant yn cael eu cyflogi gan un o'r deg partner i ffurfio cydweithrediad cyffrous ar gyfer natur. Mae CNC yn cyflogi tîm canolog Natur am Byth sy'n arwain ar reoli rhaglenni ac yn parhau i fod yn gyfrifol am gydlynw cyflawniad ledled Cymru, gan gynnwys cyfathrebu, ymgysylltu â phobl, adrodd ar raglenni, gwerthuso a chydymffurfiaeth ariannol. Mae'r tîm hwn yn bodoli o fewn grŵp Prosiectau Strategol Gweithrediadau newydd CNC.
12. Mae CNC wedi cyfrannu £1.7 miliwn tuag at y rhaglen ac mae partneriaid Natur am Byth wedi sicrhau £1.4 miliwn arall gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau



Cymru a nifer o ymddiriedolaethau elusennol, sefydliadau a rhoddwyr corfforaethol. Mae'r rhoddion hyn yn cynnwys cymorth gan Sefydliad Esmée Fairbairn a chymorth sylweddol gan Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

### **Ymgynghoriad ar Drwyddedu Rhyddhau Adar Hela**

13. Daeth yr ymgynghoriad deuddeg wythnos ar ein dull arfaethedig o reoleiddio rhyddhau adar hela yng Nghymru i ben am hanner nos ar 20 Mehefin. Derbyniodd yr ymgynghoriad dros 42,000 o ymatebion, a fydd nawr yn cael eu dadansoddi a'u hystyried.
14. Roedd ein hymgyngoriad hefyd yn gyfle statudol i'r rhai y mae'r cynnig yn effeithio arnynt ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gyflwyno sylwadau. Byddwn yn canolbwyntio i ddechrau ar ddarparu ymatebion o'r rhan honno o'n hymgyngoriad i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Newid Hinsawdd, ynghyd â'n cyngor ynghylch a ddylid ailystyried yr argymhelliad yng ngoleuni'r ymateb.
15. Unwaith y bydd y Gweinidog wedi ystyried ein hadroddiad ac wedi gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at yr Atodlen, byddwn yn ystyried sut mae'r ymatebion i weddill yr ymgynghoriad yn effeithio ar weithredu unrhyw ymateb trwyddedu gofynnol. Os oes angen cynllun trwyddedu, ein nod yw sicrhau bod unrhyw ddull angenrheidiol yn barod i'w gymeradwyo gan Fwrdd CNC ym mis Medi, gyda'r bwriad iddo ddod i rym mewn pryd i'w ryddhau yn 2024.

### **Natur a Ni**

16. Rydym wedi derbyn drafft o adroddiad canfyddiadau cynulliad y hefyd. Mae hwn yn darparu datganiad gweledigaeth o sut y gall pethau fod yn 2050 os bydd natur a chymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd ac yn dwyn ynghyd y lleisiau a'r dystiolaeth a gasglwyd gydol y sgwrs genedlaethol. Mae CNC yn ystyried yr adroddiad a'r datganiad gweledigaeth, a bydd yn datblygu ymateb ffurfiol yn yr hydref.
17. Yn y cyfamser, rydym yn gwneud cynlluniau i ryddhau'r datganiad gweledigaeth terfynol ddiwedd mis Gorffennaf. Byddwn yn cynnal digwyddiad yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf ac yn mynychu'r digwyddiad Go Wild ym Mharc Bryn Bach. Fel rhan o'r digwyddiadau hynny, byddwn yn galw ar sefydliadau eraill i ystyried y weledigaeth - a ddatblygwyd gan bobl yng Nghymru - a gofyn, "Beth allwch chi ei wneud i helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer Natur a Ni"? Bydd ymatebion gan sefydliadau eraill yn cael eu cipio, eu rhannu a'u hymgorffori yn ein blaengynlluniau gwaith.

18. Bydd y weledigaeth, yr adroddiad canfyddiadau a'r holl ddeunyddiau ategol ar gael ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

### **Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)**

19. Nod Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) a gyflwynwyd ym mis Mawrth eleni yw cysoni polisi sŵn, seinwedd ac ansawdd aer yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, bydd yn ofynnol i CNC gyfrannu at ddatblygu targedau ansawdd aer newydd a datblygu polisi a chanllawiau ar gyfer trwyddedu sy'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol newydd. Bydd disgwyl i ni hefyd ddatblygu canllawiau a dulliau newydd i integreiddio'r ystyriaeth o seinweddau yn y broses trwyddedu amgylcheddol a rheoleiddio gweithrediadau diwydiannol a masnachol. Mae seinweddau yn faes cymharol newydd ym maes acwsteg; efallai y bydd angen adnoddau ac arbenigedd ychwanegol er mwyn i CNC weithredu seinweddau yn llwyddiannus a bodloni ein rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth newydd.

### **Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

20. Dros y misoedd diwethaf, mae tîm Polisi Amgylcheddol Strategol CNC wedi bod yn asesu effaith bosibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) ar y gyfundrefn trwyddedau, cydsyniadau, cofrestriadau, awdurdodiadau ac eithriadau a gyhoeddir gan CNC.

21. Ailadroddodd yr adroddiad cyntaf gan Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru (IEPAW), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, bryderon y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a phryderon CNC ynghylch yr effaith y gallai'r Bil ei chael ar weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Roedd y pryderon hynny'n cynnwys diffyg cynllunio, amserlen dynn a'r risg o ganlyniadau polisi gwrthnysig.

22. Ym mis Mai, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bod adroddiad IEPAW wedi'i gyflwyno gerbron y Senedd, ac yn cyhoeddi ei hymateb i'r adroddiad a'r argymhellion a wnaed ynddo.

23. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddiwygiadau i'r Bil a oedd yn cynnwys dirymu'r cymal machlud oherwydd risgiau o ansicrwydd cyfreithiol, a chynnwys cymal newydd i sicrhau gwell craffu seneddol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, er mwyn lleihau'r risg o ganlyniadau anfwriadol. Yn ogystal, ychwanegwyd cymal newydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd neu safonau bwyd gynnal o leiaf yr un safon o ddiogelwch â mesurau

cyfraith yr UE a ddargedwir. Byddai'r cymal hwn yn berthnasol i'r DU gyfan ac yn ymateb i bryderon y gallai diogelu'r amgylchedd gael ei wanhau o ganlyniad i'r Bil.

24. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'r amserlen ddirymu newydd sy'n rhestru detholiad llai o ddeddfau a fydd yn cael eu dirymu'n awtomatig ar ddiwedd 2023. Ystyrir bod llawer o hyn wedi mynd allan o arfer ac yn ddiangen, ac rydym wedi cytuno o'r blaen gyda Llywodraeth Cymru y gellir ei ddirymu heb fawr o effaith.
25. Mae pryder parhaus ynglŷn â dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir. Er bod y Bil yn rhoi disgresiwn i wyro oddi wrth gyfraith achosion sefydledig (gan ddileu goruchafiaeth cyfraith achosion ac egwyddorion cyfreithiol yr UE), ni wnaed unrhyw asesiad i ddeall goblygiadau'r dull hwn, gan gynnwys y potensial ar gyfer heriau cyfreithiol, oedi ac ôl-ffeithiau ariannol. Mae hwn yn bryder arbennig gyda'r Rheoliadau Cynefinoedd oherwydd maint y gyfraith achosion sydd wedi cronni a swm y canllawiau, arfer gorau a phenderfyniadau sydd bellach yn seiliedig ar gyfraith achosion, yn hytrach na'r Rheoliadau eu hunain.

## Materion Gweithredol

### Tanau Gwyllt ar y Tir yn ein Gofal

26. Yn ystod y misoedd diwethaf, bu nifer sylweddol o danau gwyllt ar dir a reolir gan CNC, ac mae hyn wedi ennyn diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau. Ers dechrau mis Mawrth, bu 36 o danau gwyllt, gyda thanau Rhigos a Blaengarw o faint a dwyster sylweddol, gyda phob un yn para o leiaf saith diwrnod.
27. Mewn digwyddiadau o'r fath, rydym yn cefnogi'r Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS) drwy ddarparu gwybodaeth a mynediad lleol, a defnyddio hofrenyddion a pheiriannau trwm. Mae digwyddiadau tanau gwyllt yn gofyn am amser staff sylweddol gan CNC a'r FRS ac, yn aml, maent yn peryglu bywyd. Gallant achosi difrod sylweddol i eiddo a bioamrywiaeth, colli carbon, effeithio ar ansawdd aer a chynyddu'r risg o dirlithriadau yn ddiweddarach. Mae'r rhan fwyaf o danau gwyllt ar y tir yn ein gofal o ganlyniad i danio bwriadol ac maent yn digwydd yn bennaf yng Nghymoedd y De yn agos at ardaloedd poblog.
28. Byddwn yn penodi Rheolwr Adfer i gydlynu sut rydym yn ymdrin ag effaith gyffredinol tanau gwyllt ar draws y tir yn ein gofal. Rydym eisoes wedi uwchraddio ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau, a gellir gweld canlyniad hynny yn effeithlonrwydd ein hymateb i ddigwyddiadau eleni. Yn yr hirdymor, rydym yn addasu'r tir yn ein gofal i ymdopi â risg uwch o danau gwyllt oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

29. Digwyddodd un o'n tanau gwyllt mwyaf eleni ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru (WGWE) ar Fynydd y Rhigos yn y De. Llosgodd y tân oddeutu 120 hectar o goetir ac 20 hectar o dir cyfagos, gan gynnwys llawer o ardal ddynodedig Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Craig y Llyn, sy'n ardal rydym yn rheoli rhan ohoni ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cafodd rhwystrau tân eu gosod i helpu i geisio rheoli'r tân a dim ond ardaloedd bach sy'n dal i fudlosgi erbyn hyn. Mae'r gwaith monitro'n parhau ac mae Dŵr Cymru yn cymryd samplau ansawdd dŵr yn Llyn Fawr, sy'n ased adnoddau dŵr pwysig. Gwnaed difrod helaeth i rannau o lwybr beicio mynydd Skyline ac, er y bu'n rhaid i Zip World y Tŵr roi'r gorau i weithredu ar anterth y tân, fe arbedwyd eu seilwaith.

### **Prosiect Arddangos Tanau Gwyllt Llethrau Llon (Canol y De)**

30. Mae prosiect Arddangos Tanau Gwyllt Llethrau Llon wedi cwblhau'r cam adeiladu tystiolaeth a ariannwyd drwy'r Gronfa Datblygu Gwledig, drwy Lywodraeth Cymru.

31. Mae'r prosiect, a gynhelir gan CNC mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, wedi bod yn archwilio dull integredig o reoli tanau gwyllt. Mae hyn wedi cynnwys addysg ac ymwybyddiaeth, atal ac ymateb i ddigwyddiadau, gan fabwysiadu dull tirwedd integredig o ymdrin â thanau gwyllt gydol y flwyddyn, nid dim ond mewn digwyddiadau tanau gwyllt.

32. Gyda chyllid o £850,000 dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Llethrau Llon wedi elwa ar adnoddau pwrpasol, gan gynnwys secondiad swyddog tân am chwe mis. Gan ddefnyddio safleoedd arddangos, dulliau treialu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol ac yn rhyngwladol, mae'r prosiect wedi archwilio gwydnwch Cymru o ran ymateb i ddigwyddiadau, rheoli tir a pholisi a'r angen i addasu i ragfynegiadau newid hinsawdd y bydd tanau gwyllt yn dod yn fwy o risg. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn llywio cyfres o argymhellion i adeiladu gwydnwch tanau gwyllt yn y dirwedd, gan fynd ati hefyd i wella gwydnwch ecolegol, cymunedau, economïau gwledig a diogelwch diffoddwyr tân.

33. Cynhaliwyd Cynhadledd Tanau Gwyllt yng Nghymru ar 13 a 14 Mehefin, lle trafododd ystod amrywiol o fynychwyr yr heriau a'r camau nesaf ynghylch polisi a rheoli tanau gwyllt. Roedd hwn yn ddigwyddiad llwyddiannus gyda llawer o adborth cadarnhaol a phartneriaethau a rhwydweithiau defnyddiol yn cael eu cynnal a'u meithrin. Datgelodd y trafodaethau agored gonsensws clir bod hyn yn her i gymdeithas gyfan a bod gan bob un ohonom gyfraniad i'w wneud at leihau'r risg o danau gwyllt, gan ei ymgorffori yn y ffordd rydym yn rheoli'r tir gydol y flwyddyn.

34. Mae'r camau nesaf yn edrych ar sut y gallwn wreiddio'r dysgu o fewn CNC. Mae heriau i ni o ran rheoli digwyddiadau a mesurau atal i'w hymgorffori yn ein rheolaeth tir ein hunain. Mae gennym rôl hefyd o ran tynnu sylw at beryglon amgylcheddol tanau gwyllt a'r effaith ar ansawdd aer, iechyd a llesiant.
35. Yng Nghanol y De, oherwydd y risgiau sylweddol yn y rhanbarth, rydym yn datblygu strategaeth tanau gwyllt i'w hymgorffori yn ein cynlluniau coetir dull lleol.

#### **Diweddariad gorfodi Ch4**

36. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau a gorfodi yn rhan bwysig o'n pecyn cymorth rheoleiddiol, gan helpu i sicrhau ein bod yn ymateb mewn ffordd gymesur i ddigwyddiadau llygredd. Yn wahanol i'n gweithgareddau rheoleiddio arfaethedig, sy'n helpu i atal llygredd drwy asesu cydymffurfiaeth, arfer gorau, ymgyrchoedd a chynghor, mae gorfodi'n adweithiol, ac yn digwydd unwaith y bydd difrod wedi'i wneud. Pan fo pethau'n mynd o chwith drwy esgeulustod, gweithredoedd bwriadol neu ddamweiniau, rydym yn ceisio cyfiawnder cymesur am y troseddau a achosodd y llygredd, gan ddefnyddio ystod o opsiynau gorfodi. Mae ein Hadroddiadau Rheoleiddio Blynyddol yn dangos sut mae ein camau gorfodi yn cyfrannu at yr amcanion llesiant yng Nghymru.
37. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth eleni, agorwyd 148 o achosion gorfodi newydd, a chynhyrwyd 42% ohonynt o ganlyniad i bresenoldeb CNC mewn digwyddiadau. Roedd 6% yn dod o achosion Gwialen a Lein pysgodfeydd, a 52% o ddiffyg cydymffurfiaeth reoleiddiol mewn safleoedd trwyddedig. Cwblhawyd camau gorfodi a chau 35 o'r achosion o fewn yr un cyfnod.
38. Yn ystod yr un cyfnod, cwblhawyd 22 o achosion erlyn oedd yn weithredol ers 2022 neu'n gynharach. Roedd y rhain yn cynnwys 14 o achosion pysgodfeydd, pedwar achos dŵr a phedwar achos gwastraff. Roedd un o'r erlyniadau gwastraff am ollwng gwastraff yn anghyfreithlon ar dir yn 2018; cafwyd y diffynnydd yn euog yn Llys y Goron Abertawe ym mis Hydref 2019, gyda'i ddedfryd wedi'i ohirio. Oherwydd Covid, daeth yr achos i ben o'r diwedd ym mis Mawrth 2023, pan orchmynnwyd y diffynnydd i dalu £3,770.51 mewn iawndal o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 i ad-dalu'r gost o waredu'r gwastraff a ddyddodwyd yn anghyfreithlon i'r tiffeddiannwr.

#### **Gorchymyn Diwygio Harbwr Gwarchodaeth Dyfrdwy 2023**

39. Daeth saga hirhoedlog arall i ben ar 21 Mehefin pan lofnododd yr Adran Drafnidiaeth Orchymyn Diwygio Harbwr Gwarchodaeth Dyfrdwy 2023. Bydd y Gorchymyn, sy'n moderneiddio pwerau CNC fel yr Harbwr Statudol a'r Awdurdod Goleudy Lleol mewn perthynas â mordwyo yn aber afon Dyfrdwy, yn dod i rym ar 12

Gorffennaf. Mae'r Gorchymyn newydd yn sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol, y mae'n rhaid i CNC ymgynghori ag ef ar faterion sy'n effeithio ar y warchodaeth, yn ogystal â phwerau sy'n caniatáu casglu ffioedd am wasanaethau a ddarperir gan CNC fel Awdurdod Harbwr Statudol Gwarchodaeth Dyfrdwy (er enghraifft, trwyddedau gwaith harbwr, ffioedd am ddefnyddio'r warchodaeth).

### **Ffilmio ar dir CNC yn y Gogledd-orllewin**

40. Mae'r gwaith o ffilmio golygfeydd ar gyfer cynhyrchiad teledu mawr ar dir CNC newydd orffen. Parodd y gwaith sefydlu a ffilmio am dair wythnos ar ein tir yn Niwbwrch ac Ynys Llandwyn ar Ynys Môn. "Red Gun" oedd yr enw cod ar gyfer cynhyrchiad cyfres newydd o un o'r masnachfreintiau cyfresi teledu rhyngwladol mwyaf erioed.
41. Mae'r safleoedd a ddefnyddir yn safleoedd cadwraeth o bwysigrwydd rhyngwladol gyda dynodiadau safle a rhywogaeth helaeth. Mae'r safle hefyd yn denu dros 500,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac mae'n sensitif iawn gyda chymunedau lleol oherwydd problemau mynediad a phroblemau traffig. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r cwmni cynhyrchu ers dros flwyddyn i sicrhau y gallai'r ffilmio fynd rhagddo heb effeithio ar y safleoedd gwarchodedig, effeithio'n andwyol ar y gymuned leol neu darfu ar brofiad ymwelwyr. Cyflawnwyd hyn drwy ymgysylltu'n gynnar a gwaith caled sylweddol gan gydweithwyr i sicrhau amserlennu priodol i osgoi amseroedd brig ymwelwyr a bridio, cyfathrebu â'r gymuned, a chydsynio a thrwyddedu prydlon.
42. Mae'r cynhyrchiad wedi creu manteision sylweddol i'r economi leol ac wedi cael ymateb cadarnhaol yn lleol ac yn y cyfryngau. Felly, roedd gan y prosiect y potensial i gael effaith enfawr ar enw da CNC a Chymru. Roedd gwaith caled ac agwedd gadarnhaol ein staff a'r cwmni cynhyrchu yn sicrhau bod y cynhyrchiad yn mynd yn ei flaen heb unrhyw effeithiau andwyol ar natur, y gymuned nac ymwelwyr, a llwyddwyd i osgoi effeithiau niweidiol y cyfryngau a gwleidyddol a welsom gyda rhai cynyrchiadau mawr eraill.

### **Prosiect Dalgylch Teifi**

43. Yn ogystal â thrafodaethau rhwng ein Cadeirydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd, rydym wedi parhau i ddatblygu cynnig ar gyfer dull dalgylch ar afon Teifi. Mae trafodaethau ynghylch cyllid wedi cychwyn gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o recriwtio i ddwy swydd newydd i gychwyn a swyddi pellach i ddilyn. Y bwriad yw canolbwyntio ar raddfa dalgylch, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, i ddatblygu dulliau arloesol o wella ansawdd dŵr yn nalgylch afon Teifi, dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) sydd ar hyn o bryd yn methu â chyrraedd ei safonau ffosffad.

### **Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) - Diweddariad**

44. Rydym yn parhau i weithio ar gamau gweithredu CNC yng Nghynllun Gweithredu'r Prif Weinidog, Lleihau Pwysau ar Ddalgylchoedd Afonydd SAC i Helpu i Gyflenwi Tai Fforddiadwy. Adlewyrchwyd y rhain yn ein targedau corfforaethol ar gyfer y prosiect. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r strwythur llywodraethu newydd ar gyfer Cynllun Gweithredu'r Prif Weinidog, gyda'n Cadeirydd yn gwneud cyfraniad allweddol at y Grŵp Goruchwylio Gweinidogol.
45. Ers y diweddariad diwethaf, rydym wedi cwblhau'r gwaith sicrhau ansawdd annibynnol ar y modelau Dosrannu Tarddiad (SAGIS) ar gyfer pob un o'r afonydd ACA ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn addas i'r diben ar gyfer cynllunio dŵr gwastraff. Mae adroddiad SAGIS ar gyfer afon Tywi wedi ei gyhoeddi gan Dŵr Cymru. Bydd yr adroddiadau afonydd SAC eraill yn cael eu cyhoeddi yn fuan. Mae ein dogfen "Lines to Take" wedi'i diweddarau a'i chyhoeddi ar y fewnwyd fel bod gan bob aelod o staff adnodd cyson i gyfeirio ato cyn mynychu cyfarfodydd a rhyngweithio â'r cyhoedd.
46. Dros y ffin, mae Natural England wedi cyhoeddi asesiad wedi'i ddiweddarau sy'n newid statws unedau ar afonydd Lugg a Gwy i "dirywio'n anffafriol". Rhoddodd y cyfryngau sylw i hyn a gofynnwyd i CNC am sylw ar ochr Cymru afon Gwy. Mae diddordeb gwleidyddol hefyd yn cynyddu'n sylweddol ac, yn ddiweddar, cynhaliodd Therese Coffey AS ddigwyddiad Bord Gron, gydag amrywiaeth o wahanol swyddogion a rhanddeiliaid wedi'u gwahodd, gan gynnwys CNC. Mae digwyddiad dilynol yn cael ei gynllunio gydag Ymddiriedolaeth Natur Maesyfed yn arwain.
47. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi ARUP Consultants (sy'n gweithio gyda Ricardo) i gynhyrchu'r cyfrifyddion maethynnau ar gyfer afonydd ACA, ac mae'r gwaith hwn bellach yn mynd rhagddo. Mae CNC yn mynychu'r grŵp llywio. Mae'r contract yn cynnwys y naw afon ACA, ynghyd â Llyn Tegid, ar gyfer ffosfforws a nitrogen. Disgwylir cyfrifyddion drafft erbyn diwedd mis Awst, gyda hyfforddiant yn yr hydref (amserlen uchelgeisiol).
48. Wrth i'r Adolygiad o Drwyddedau agosáu (yr adeg pan fydd trwyddedau diwygiedig yn dechrau cael eu rhyddhau), rydym wedi bod yn canolbwyntio ar sut y dylid rhyddhau'r wybodaeth hon a datblygu hyfforddiant ar gyfer cydweithwyr a phartneriaid allanol. O ystyried y nifer uchel o geisiadau cynllunio sy'n disgwyl canlyniad yr Adolygiad ar hyn o bryd, mae angen i ni sicrhau bod gwybodaeth am drwyddedau'n cael ei rhyddhau mewn ffordd reoledig a bod CNC a staff awdurdodau cynllunio yn gwybod sut i ddechongli'r canlyniadau a'u cymhwyso'n gyson mewn ymatebion cynllunio. Dylai hyn ein helpu i reoli'r brig disgwyliedig mewn llwyth gwaith mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

49. Rydym yn gweithio i ddarparu canlyniadau'r Adolygiad o Drwyddedau ar ein gwefan fel y bydd datblygwyr ac awdurdodau cynllunio yn gallu cael mynediad rhwydd at yr wybodaeth am drwyddedau sydd ei hangen arnynt.
50. Mae nifer o ymgynghoriadau ar gyfer ceisiadau cynllunio unedau dofednod yn y ciw, gyda allforio tail yn ateb a ffefrir i waredu tail. Mae staff y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Datblygu yn ymateb i'r rhain lle mae ein sefyllfa yn peri pryder ac yn ymwneud â thynnedd y tail a lle y caiff ei roi wedi hynny.
51. Dosbarthwyd y rhestr o Fesurau Lliniaru ar gyfer ymgynghoriad mewnol ym mis Ebrill ac mae'r sylwadau wedi cael eu hadolygu a'u gweithredu. Mae fersiwn hawdd ei defnyddio o'r daenlen wedi'i drafftio i'w rhannu'n allanol. Mae papur wedi'i ysgrifennu i'w anfon at yr Is-grŵp Tir a Dŵr Cynaliadwy i'w gymeradwyo cyn ei ddsbarthu i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin, cyn y dyddiad cau yng Nghynllun Gweithredu'r Prif Weinidog.

### **Gwaith Cronfa Ddŵr ar y Rhestr Fer ar gyfer Gwobrau**

52. Mae Prosiect Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid CNC yn y Bala a Phrosiect Diogelwch Cronfa Ddŵr y Tywysog Llywelyn wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Peirianeg Sifil Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) Cymru 2023.
53. Gwnaed y gwaith yn Llyn Tegid i'w alluogi i wrthsefyll tywydd eithafol a darparu amddiffyniad i fwy nag wyth cant o adeiladau lleol. Cafodd y prosiect ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu gan William Hughes Civil Engineering, Binnies, Arcadis, Ground Control a Dams and Reservoirs Ltd. Roedd y gwaith, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2023, yn cynnwys cryfhau argloddiau'r llyn gyda mwy na 13,000 tunnell o greigiau ac roedd yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol a hamdden megis llwybrau troed gwell ac ardaloedd eistedd newydd, yn ogystal â phum hectar o gynefinoedd naturiol wedi'u hadfer ac ardaloedd newydd o ddolydd blodau gwyllt.
54. Mae Cronfa Ddŵr y Tywysog Llywelyn yn strwythur argae hanesyddol sydd wedi'i leoli o fewn ystad goedwigaeth CNC y tu allan i Ddolwyddelan. Adeiladwyd yr argae yn y 1800au i ddarparu dŵr i chwarel y Tywysog Llewelyn i lawr yr afon. Gan nad oedd y gronfa ddŵr yn cyflawni swyddogaeth mwyach ac nad oedd yn addas i'w defnyddio fel cyflenwad dŵr, penderfynodd CNC ddatgomisiynu'r strwythur argae yn ddiogel, gan ddychwelyd y corff dŵr i lefelau naturiol a lleihau'r perygl o lifogydd i eiddo i lawr yr afon. Ymgorfforwyd gwelliannau bioamrywiaeth hefyd i ddarparu buddion i fywyd gwyllt tra bod y gwaith yn sicrhau bod darn sylweddol o archaeoleg ddiwydiannol Cymru yn cael ei gadw'n ddiogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gwnaethpwyd y gwaith gan William Hughes Civil Engineering.



55. Cynhelir y seremoni wobrwyo ym mis Medi.

## Masnachol

### Pren

56. Mae'r fersiwn newydd o'r Safon Llywodraethu Gwerthiant Pren wedi'i gweithredu'n llwyddiannus ar gyfer Gwerthiant mis Gorffennaf (i gau ar 3 Gorffennaf). Bydd y safon newydd yn rhoi mwy o reolaeth i CNC dros benderfynu pwy sydd wedi ennill lotiau ac yn dileu'r ddibyniaeth ar egwyddor y cynigydd uchaf, gan ganiatáu ar gyfer trafodaeth a phenderfyniadau yn seiliedig ar ffactorau eraill megis cofnod iechyd a diogelwch, faint a werthir ymlaen, materion ymestyn contractau a rheoli credyd. Mae'r newid hwn wedi'i ddosbarthu'n dda ac rydym wedi cyfarfod â nifer o gwsmeriaid i esbonio'r newid, yn ogystal â darparu hyfforddiant helaeth ar y safonau newydd yn fewnol.

### Fferm Wynt Y Bryn

57. Mae Y Bryn wedi mynd i mewn i'r cam Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ffurfiol. Dyma'r cam ffurfiol cyntaf a hysbysebwr yn gyhoeddus yn y broses gynllunio ac mae'n cynhyrchu cryn dipyn o ddiddordeb cyhoeddus, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Rydym yn monitro'r sefyllfa ond mae'n bwysig nad yw CNC yn dylanwadu ar y broses gynllunio mewn unrhyw ffordd y tu hwnt i'n rôl arferol fel ymatebydd.

## Mewnol

### Adfywio

58. Mae prosiect Cardiff Opportunity i symud staff o Dŷ Cambria a Rivers House i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays yn symud yn gyflym. Rydym yn agos at gytuno ar benawdau'r telerau gyda Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran clirio Tŷ Cambria a'n symud i Barc Cathays ddiwedd 2023 neu ddechrau 2024.

59. Rydym bellach wedi cychwyn prosiect i ddatblygu achos busnes ac opsiynau ar gyfer ein swyddfa yn Llandarcy. Mae gennym gyfle i gael seibiant prydles ym mis Tachwedd 2023 a fyddai'n golygu ein bod yn gadael ym mis Tachwedd 2024.

60. Mae'r Strategaeth Llety 10 mlynedd a'r Cynllun Cyflawni Dynamig cysylltiedig wedi'u cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol ac mae disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi a bod yn destun ymgysylltiad staff o fis Gorffennaf ymlaen.

61. Mae'r cynllun aberthu cyflog Cerbydau Trydan (EV) yn barod i gychwyn yn amodol ar drafodaethau ag undebau ar y gwahanol ganlyniadau pensiwn.
62. Mae Adfywio wedi cyflwyno Olew Llysiau 'Hydrotreated' (HVO) i'w ddefnyddio yn ein peiriannau a rhai cerbydau gweithredol. Mae hwn yn danwydd dros dro sy'n cynnig gostyngiad o 90% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.
63. Mae cynllun Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (EVCI) integredig CNC yn parhau, gydag arolygon yn cael eu cynnal. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ddiwedd yr haf, gan ein galluogi i gaffael yr adeiladu a'r gweithredu yn gynnar yn 2024. Fel mesur dros dro, rydym wedi archebu tua hanner cant o wefrwyr EV i'w gosod o fewn y chwarter nesaf i gefnogi'r EVs sydd gennym ac y byddwn yn eu harchebu yn y flwyddyn ariannol hon.
64. Rydym wedi datblygu Polisi Prynu Fflyd Dros Dro i gefnogi'r newid i fflyd allyriadau isel iawn (ULEV). Mae hyn yn golygu y bydd CNC ond yn prynu neu brydlesu ceir a faniau diesel neu betrol drwy eithriad. Bydd pob pryniant ULEV yn geir trydan batri.

### **Cyfarfodydd Cynllun Corfforaethol**

65. Gydol mis Mehefin a dechrau mis Gorffennaf, mynychodd cyfanswm o 1,033 o gydweithwyr saith cyfarfod ledled Cymru. Mae'r digwyddiadau lleol hyn yn disodli digwyddiad blynyddol #TîmCNC ac fe'u cynlluniwyd mewn ymateb i adborth gan staff ar eu hawydd i ddod at ei gilydd i greu cysylltiadau ar draws timau a chyfarwyddiadau.
66. Dan arweiniad ET, mae'r sesiynau'n defnyddio'r Cynllun Corfforaethol ac Ein Llais fel sbringfwrdd ar gyfer sgysiau newydd rhwng cydweithwyr. Mae'r sesiynau wedi cynnwys pedwar sesiwn naid – Ein Llais, Adfywio, Gwerthoedd a Natur a Ni – yn gofyn am adborth staff ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf. Mae fformat y sesiwn wedi'i addasu ar gyfer pob lleoliad.
67. Mae gwerthusiad wedi'i gynllunio dros yr haf i lywio digwyddiadau pellach yn yr hydref.

## **Cyfathrebu a Chwsmeriaid**

### **Cyfathrebu**

68. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol newydd, gan weithio gyda Thîm y Prif Swyddog Gweithredol i lansio'r Cynllun yn nigwyddiad y Senedd. Roedd hyn yn cynnwys cael cymeradwyaeth gan randdeiliaid fel rhan o'r cyfathrebu, a oedd yn canolbwyntio ar Ddiwrnod

Amgylchedd y Byd. Mae'r tîm yn parhau i ddarparu cymorth i gyfarfodydd y Cynllun Corfforaethol sy'n cael eu cynnal ym misoedd Mehefin a Gorffennaf.

69. Mae'r Tîm Cyfathrebu hefyd wedi bod yn ymwneud â gwaith cyfathrebu am effaith y tywydd sych a poeth ar yr amgylchedd, gan gynnwys cynllunio ar gyfer sychder gyda'r Grŵp Cyswllt Sychder, cymorth gyda digwyddiadau tanau gwyllt, ac effeithiau amgylcheddol eraill megis pysgod mewn trallod ac algâu gwyrddlas. Mae cyfweiliadau yn y cyfryngau wedi cynnwys Sky News a BBC Cymru Wales.
70. Buom yn gweithio'n agos gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyllidwyr cyfatebol eraill i gyfleu'r llwyddiant o sicrhau £8 miliwn ar gyfer prosiect Natur am Byth. Manteisiodd y cyfathrebu ar ffotograffiaeth dda a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r prosiect wrth i ni recriwtio i'r ugain swydd sydd ar gael.
71. Parhaodd ein gwaith gorfodi ac erlyn i ddenu sylw yn y cyfryngau, yn fwyaf arbennig erlyniad Taylor Wimpey am droseddau llygredd. Buom hefyd yn gweithio gyda'r Tîm Adolygiad Strategol o Wefru (SROC) i gyfleu canlyniad y gwaith sicrwydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar gynigion ein cynllun gwefru i randdeiliaid a'r cyfryngau.
72. Mae materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyfryngau rydym wedi gweithio arnynt yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys: ein hymateb i raglen Countryfile ar Dŷ Llwyd a halogiad tir hanesyddol; briffiau a chyfweiliadau allweddol ar y newid yn yr hinsawdd a pherygl llifogydd fel rhan o'n cyfraniad at raglen Wales This Week yn canolbwyntio ar effeithiau cynnydd yn lefel y môr ar yr arfordir; a'n gwaith partneriaeth gyda Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu a Phrifysgol Bangor i gofnodi effaith sŵn ar famaliaid morol, a ddenodd lawer o ddiddordeb yn y cyfryngau. Roedd ymholiadau yn ymwneud ag ansawdd dŵr (yn enwedig Gorlifoedd Carthffosiaeth Cyfunol (CSOs), ffoffadau a dechrau tymor samplu dŵr ymdrochi), yr ymgynghoriad ar adar hela ac ymholiadau yn ymwneud â blodau algaidd tymhorol yn codi'n aml hefyd.
73. Gwnaethom gefnogi cyfathrebu ynghylch lansio'r ymgynghoriad ar gyfleuster crynhoi Abermiwl a'r ymgynghoriad ar gynlluniau i reoli GNG a Choedwig Niwbwrch.

### **Y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol**

74. Mae cynlluniau'n mynd rhagddynt ar gyfer y ddau ddigwyddiad. Ein thema yw Adferiad Natur a byddwn yn arddangos tri phrosiect: prosiect adfer mawndir yng Ngwynedd, llygod y dŵr Gŵyr a phrosiect marchfisglog oddi ar arfordir Pen Llŷn.

### **Gweithredu'r polisi Cwynion wedi'i ddiweddarau**

75. Ar 1 Ebrill, lanswyd ein Polisi Cwynion a Chymeradwyo diwygiedig, a fydd yn ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid ddarparu adborth yn ddi-oed ar wasanaeth y maent wedi'i dderbyn gennym. Mae'r polisi yn lleihau nifer y camau cwyno o dri i ddau, a bydd cwynion Cam 1 yn cael eu hateb o fewn deg diwrnod gwaith yn hytrach nag ugain diwrnod gwaith. Rydym hefyd wedi cyflwyno proses Cam 2 symlach, nad yw'n llai cadarn na'r broses bresennol ond sy'n golygu y gallwn ymateb i'r mwyafrif o ymchwiliadau Cam 2 o fewn ugain diwrnod gwaith. Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan staff ynghylch y broses Cam 2 newydd.
76. Ffocws allweddol y polisi newydd yw defnyddio'r adborth o gŵynion i wella prosesau a gweithdrefnau, gan osgoi cwynion mynych a gwella profiad y cwsmer. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i wella'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion cwsmeriaid er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn gyflym, sy'n cynnig manteision i gwsmeriaid a chydweithwyr.
77. Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad cwynion drwy wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i'r Ombwdsmon a chwsmeriaid gymharu ein perfformiad â sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â pholisi ymdrin â chwynion yr Ombwdsmon.

## Rhagolwg

Dydd Mercher 16 Awst – Galwad Diweddarau'r Bwrdd

Dydd Iau 7 Medi - Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Dydd Llun 11 Medi – Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon)

Dydd Mercher 13 Medi – Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Iau 14 Medi – Y Pwyllgor Cyllid

Dydd Mercher 20 a Dydd Iau 21 Medi – Cyfarfod Bwrdd

## Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	19 Gorffennaf 2023
Teitl:	Diweddariad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)
Cyfeirnod:	23-07-B02
Adolygydd y diweddariad gan:	Kath Palmer - Cadeirydd ARAC
Cyflwynwyd gan:	Kath Palmer - Cadeirydd ARAC
Pwrpas y papur:	Er gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

### Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn ar gyfer y Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) ar 5 Mehefin 2023.

### Diweddaru

#### Sesiwn gaeedig

2. Cynhaliodd aelodau ARAC eu sesiwn gaeedig flynyddol gyda'r Swyddog Cyfrifyddu.

#### Archwilio Cymru

3. Roedd Archwilio Cymru wedi darparu diweddariad ysgrifenedig i ddweud bod gwaith archwilio'r cyfrifon terfynol ar y gweill ar gyfer Mehefin/Gorffennaf 2023 ac yn cynnwys dolenni i gyhoeddiadau diweddar Archwilio Cymru. Roedd Cynllun Archwilio Cymru 2023 hefyd wedi ei gyflwyno i ARAC.

#### Cyfrifon Blynyddol a Diweddariad Cyllid

4. Roedd ARAC wedi adolygu'r Cyfrifon Blynyddol mewn sesiwn archwiliad dwfn, ac wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru bellach. Y bwriad yw cymeradwyo'r Cyfrifon ym mis Medi.
5. Darparwyd diweddariad cyllid a oedd yn cynnwys adroddiad blwyddyn lawn y Colledion, Taliadau Arbennig a Chamau Tendre Sengl. Bu ARAC hefyd yn adolygu a chymeradwyo Cynllun Cyflawni Atal Twyll 2023-24.

#### Adroddiad Blynyddol Drafft 2022-23

6. Fe wnaeth ARAC adolygu a chraffu ar Adroddiad Blynyddol drafft 2022-23. Byddai'n cael ei gymeradwyo gyda'r Cyfrifon, a gynlluniwyd ar gyfer mis Medi.

### Archwilio mewnol

7. Derbyniwyd a nodwyd pum adroddiad archwilio mewnol. Tri gyda sicrwydd sylweddol, dau gymedrol ac un cyfyngedig. Nodwyd ei bod yn gynnydd mawr dderbyn tri gyda sicrwydd sylweddol. Byddai'r camau gweithredu a'r llinellau amser ar yr archwiliad cyfyngedig yn dychwelyd i gyfarfod nesaf ARAC gan y gofynnwyd am linellau amser cyflymach. Cyflwynwyd y Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig arfaethedig i ARAC, a'i hardystio. Nodwyd yr Adroddiad Sicrhau Ansawdd Allanol cadarnhaol hefyd a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24.
8. Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Farn Archwilio Mewnol Blynyddol drafft, a oedd yn farn gymedrol, gyda chafaet bod angen i welliannau barhau. Croesawodd ARAC y farn a chynhaliwyd trafodaeth am ddyheadau'r dyfodol.
9. Cymeradwyodd ARAC Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol 2022-23.

### Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)

10. Croesawodd ARAC yr Adroddiad gan nodi ei fod yn fwy hygyrch. Roedd llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn a diolchodd ARAC i bawb a gymerodd ran. Cafodd yr Adroddiad ei gymeradwyo.

### Diweddariad Llywodraethu Corfforaethol

11. Roedd uchafbwyntiau'r diweddariad yn cynnwys y Grŵp Cynllunio ac Adnoddau newydd, newidiadau i ffyrdd o weithio ac y byddai gallu'r tîm Llywodraethu yn cael ei gynyddu. Hefyd, nodwyd gwaith i ddatblygu sicrwydd ar draws y sefydliad.

### Rheoli Risg

12. Roedd y gwaith o ddiwygio'r Gofrestr Risg Strategol i gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol newydd wedi dechrau, a byddai'n cael ei gyflwyno i ARAC ym mis Medi.

### Sesiwn gaeedig

13. Cynhaliodd aelodau ARAC sesiwn gaeedig gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	19 Gorffennaf 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad Bwrdd y Pwyllgor Cyllid
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-07-B03
<b>Noddwyd y Papur gan:</b>	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
<b>Paratowyd y Papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
<b>Cyflwynwyd y Papur gan:</b>	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
<b>Pwrpas y papur</b>	Information
<b>Crynodeb</b>	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid (FC) – 19 Mehefin

## Cefndir

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid (FC) ar 19 Mehefin 2023. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.

## Diweddaru

### Cadarnhau Cyllideb Agoriadol 2023-24

2. Cyflwynwyd cyllideb agoriadol 2023-24 wedi'i chadarnhau i'r Pwyllgor Cyllid. Nodwyd y byddai CNC yn monitro perfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn y gyllideb agoriadol a gadarnhawyd. Cafodd y Pwyllgor Cyllid drafodaeth sylweddol ar incwm pren a chytunodd i gael sesiwn strategol ar bren yn y dyfodol. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid gyllideb agoriadol 2023-24.

### Diweddariad Perfformiad Cyllid

3. Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor Cyllid o berfformiad y gyllideb ar gyfer Cyfnod 2 (Mai). Tynnwyd sylw at negeseuon allweddol gan gynnwys y ffaith y byddai'r gyllideb yn dynn iawn ar gyfer 2023-24.

### Cymeradwyaethau Bwrdd CNC i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid

4. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid dair cymeradwyaeth ar gyfer y Bwrdd.

### Diweddariad Cynllunio Busnes

5. Trafodwyd Cynllun Busnes 2023-24, a'r mesurau a'r metrigau dros dro. Darparwyd trosolwg o'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu mesurau a metrigau newydd y Cynllun Corfforaethol gan gynnwys pwysigrwydd neilltuo amser i sicrhau eu bod yn gadarn.
6. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid y Cynllun Busnes a'r mesurau a'r metrigau interim ar gyfer dangosfwrdd 2023-24.

### Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

7. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid adolygu'r Adroddiad Perfformiad a'r Adolygiad Dadansoddol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid wneud sylwadau ar y naws a'r enghreifftiau o weithgareddau a wnaed gan CNC. Cynigiwyd rhai awgrymiadau ynghylch tôn yr adroddiad. Yn gyffredinol, croesawyd cynnwys yr Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid.

### Gweithgareddau masnachol

8. Amlygwyd diweddariadau diweddar i'r Strategaeth Fasnachol. Cyflwynwyd gweithgarwch masnachol cyfredol a gweithgarwch ychwanegol arfaethedig ar gyfer 2023-24 hefyd.
9. Cafodd y Pwyllgor Cyllid drafodaeth hir ar rôl masnachol CNC, gan gynnwys gwerth y tîm Masnachol, a sut y gallai gweithgareddau masnachol gefnogi Amcanion y Cynllun Corfforaethol.

### Diweddariad Trawsnewid Busnes

10. Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid Busnes gan gynnwys cynnydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid, y pedwar maes ffocws a nodwyd dan y drefn ailosod, a ffocws y gwaith ar gyfer y chwarter nesaf.

### Rheoli Risg

11. Cafodd y Pwyllgor Cyllid ddiweddariad llafar i Risg Strategol 04 – Gosod Cyfeiriad Strategol. Hon oedd y risg strategol gyntaf i gyrraedd ei sgôr targed. Trafododd y Pwyllgor Cyllid y risg o gwmpasu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.



## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	19 Gorffennaf 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad Bwrdd Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
<b>Cyfeirnod Papur:</b>	23-07-B05
<b>Papur a noddir gan:</b>	Mark McKenna, Cadeirydd Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
<b>Paratowyd y Papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
<b>Cyflwynwyd y Papur gan:</b>	Mark McKenna, Cadeirydd Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
<b>Pwrpas y papur</b>	Gwybodaeth
<b>Crynodeb</b>	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 7 Mehefin

## Cefndir

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (y Pwyllgor) ar 7 Mehefin 2023. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.

## Diweddaru

### Ffyrdd o weithio

2. Trafododd y Pwyllgor y cyfle i lywio agenda'r Pwyllgor mewn cyfeiriad mwy strategol. Ystyriwyd rôl y Pwyllgor o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol newydd a datblygu diwylliant o arloesi, creadigrwydd, a datrys problemau.

### Adroddiadau lefel uchel Arolwg 'Ein Llais'

3. Cafodd canlyniadau arolwg staff Ein Llais eu cyflwyno a'u trafod. Nodwyd cysondeb yr ymatebion. Ystyriwyd y camau nesaf i gyflawni yn erbyn y tri phrif faes ffocws. Cafodd aelodau'r Pwyllgor eu diweddaru ar ddull yr arolygon staff nesaf. Nodwyd bod y

canlyniadau yn fwyaf gwerthfawr pan gânt eu cymryd yng nghyd-destun y Cynllun Corfforaethol, gan gydnabod yr agweddau strategol, a chefnogi grymuso staff.

#### Rhaglen Trawsnewid Cwsmeriaid a Digidol

4. Cafodd y Pwyllgor ei ddiweddarau ar y meysydd strategol sy'n ymwneud â'r Strategaeth Ddigidol a'r Strategaeth Cwsmeriaid a Rhanddeiliaid. Byddai'r Rhaglen yn broses ailadroddol i sicrhau bod y strategaethau'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r dull o ddiweddarau adroddiadau a ddarparwyd i'r Pwyllgor.

#### Canfyddiadau Archwilio Canfyddiadau Blynyddol

5. Cyflwynwyd canfyddiadau'r Adroddiad Archwilio Canfyddiadau Blynyddol. Roedd hyn yn feincnod ar gyfer mesur materion cyhoeddus CNC; byddai Adroddiadau'r dyfodol yn clymu i waith eiriolaeth CNC. Heriodd y Pwyllgor a ellid darparu dadansoddiad manylach yn y dyfodol yn amodol ar gyfyngiadau cyllidebol, gan argymhell ehangu'r demograffeg.

#### Adroddiad Amlygu Trawsnewid Pobl

6. Cafwyd cyflwyniad ar y Rhaglen Trawsnewid Pobl. Holodd y Pwyllgor a oedd y Rhaglen yn ddigon trawsnewidiol. Eglurwyd y byddai'r targedau a nodir yn y Rhaglen yn galluogi CNC i gymryd golwg fwy strategol ar bolisi Pobl wrth symud ymlaen. Trafodwyd rôl gwybodaeth a dealltwriaeth ymddygiadol.

#### Cynllunio Strategol y Gweithlu

7. Trafodwyd materion yn ymwneud â Chynllunio'r Gweithlu Strategol. Roedd adnoddau wedi'u nodi fel risg strategol i CNC. Disgrifiwyd rôl y Grŵp Cynllunio ac Adnoddau. Tynnwyd sylw at weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion a chafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am fodel a oedd yn cael ei dreialu gyda'r timau Rheoli Perygl Llifogydd a Chyllid.

#### Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

8. Trafododd aelodau'r Pwyllgor gynnwys Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ac ystyried y meysydd ar gyfer datblygiad strategol. Cydnabuwyd bod yr Adroddiad yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth, ond nododd aelodau'r Pwyllgor fod cysylltiadau hefyd wedi'u gwneud o safbwynt arwyddocâd y Gymraeg i waith ehangach CNC a'r amgylchedd. Cytunodd y Pwyllgor y byddai angen sgwrs lawn ar ddatblygu cyfeiriad strategol y defnydd o'r Gymraeg yn CNC a chytunwyd y dylid ychwanegu hyn at agenda cyfarfod mis Medi.
9. Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2022/23.

#### Adroddiad Chwarterol Cyfathrebu

10. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Chwarterol Cyfathrebu. Adroddwyd bod mwyafrif cyfathrebu'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys sylw cadarnhaol i niwtral. Argymhellodd aelodau'r Pwyllgor y dylid darparu'r cyfraddau ymgysylltu Cymraeg a Saesneg a deialog ansoddol fer ar dueddiadau o adroddiadau blaenorol yn yr Adroddiad Chwarterol Cyfathrebu nesaf.

#### Rhagolwg

11. Myfyriodd y Pwyllgor ar y dull o gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol gan ystyried y trafodaethau ynghylch symud tuag at agenda fwy strategol. Cytunwyd y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu, a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol, gyfarfod i drafod y dull diwygiedig o gynnal y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid.

#### Eitemau ychwanegol

12. Ystyriodd a nododd y Cyngor yr eitemau canlynol:

- Y Datganiad Polisi Tâl – 31 Mawrth 2023
- Gwybodaeth Rheoli ar gyfer Chwarter 4 – Ionawr i Mawrth 2023
- Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth Ariannol 2022/23

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	19 Gorffennaf 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Bwrdd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig - Diweddariad
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-07-B06
<b>Noddir y papur gan:</b>	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
<b>Cyflwynir y papur gan:</b>	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig
<b>Diben y papur</b>	Gwybodaeth
<b>Crynodeb</b>	Rhoi diweddariad i gyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig, 23 Mehefin 2023, a chyfarfod Hysbysiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 29 Mehefin 2023

### Cefndir

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC) ar 23 Mehefin 2023, a chyfarfod Hysbysiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar 29 Mehefin 2023.

### Diweddariad – Cyfarfod Cyffredinol, 23 Mehefin 2023

#### Polisi Cynllunio Cymru - Diweddariad

2. Cafodd y newidiadau allweddol yn ymgynghoriad Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru eu cyflwyno, eu trafod a'u nodi. Rhoddwyd cefnogaeth i ymateb CNC a chydabuwyd yr heriau o weithredu'r polisi, a fyddai'n dibynnu ar awdurdodau cynllunio i raddau helaeth.

#### Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

3. Trafododd PrAC y Prosiect Afonydd ACA sy'n mynd rhagddo a goblygiadau Cynllun Gweithredu'r Prif Weinidog. Cydnabuwyd bod angen lefel uwch o ddata i flaenoriaethu adnoddau yn effeithiol. Roedd ffyrdd o wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid, yn enwedig yn y sector amaethyddol, yn cael eu harchwilio hefyd.

Tystiolaeth a Monitro ar gyfer Targed 3 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (30x30) yng Nghyd-destun Cymru

4. Cafodd lefel bresennol sylfaen dystiolaeth CNC, a ffyrdd o wella'r broses casglu data, eu hystyried a'u trafod. Nodwyd yr angen i integreiddio tystiolaeth yn well, a thrafodwyd y manteision a'r risgiau o ddefnyddio technegau sy'n dod i'r amlwg. Nododd PrAC bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd yn gyffredinol wrth gyflawni amcanion CNC. Cydnabuwyd bod gan CNC rôl o ran bod yn eiriolwr beiddgar, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol newydd.

Diweddariad ar Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

5. Darparwyd trosolwg o argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a gweithgarwch parhaus. Trafodwyd yr angen i gynyddu nifer y dynodiadau SoDdGA, ac ystyriwyd y sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer ehangu dynodiadau i feysydd lle nad oedd cadwraeth natur yn ofyniad cynhenid, er enghraifft Parciau Cenedlaethol lle mae'r dynodiad yn canolbwyntio ar dirwedd. Trafodwyd gwerth Adroddiadau Bioamrywiaeth fel gofyniad ar gyfer mynediad i gynlluniau megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Rheoli Risg – Risg Strategol SR05 (Hyrwyddo SMNR)

6. Archwiliodd PrAC effeithiolrwydd y rheolaethau a ddisgrifir yn SR05, yn enwedig mewn perthynas â Datganiadau Ardal. Bydd y Risg hon yn cael ei diweddarau yn unol â'r Cynllun Corfforaethol newydd, a fydd yn cyflwyno newidiadau sylweddol yn y fersiwn nesaf. Amlygwyd y dylid cynnal trosolwg o'r elfennau presennol i sicrhau nad oedd unrhyw beth yn cael ei gollu ac nad oedd risgiau'n cael eu dyblygu ar wahanol lefelau yn y sefydliad. Trafodwyd rôl CNC o ran cefnogi Llywodraeth Cymru i gwblhau'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Diweddariadau Ysgrifenedig

7. Gwnaeth PrAC ystyried a nodi'r llythyr rhybudd a gafodd CNC ganddo'i hun fel gorfodwr, gan bwysleisio pwysigrwydd perfformio i'r un safonau uchel a ddisgwylir gan eraill. Cafodd sicrwydd y byddai proses gwersi a ddysgwyd i sicrhau na fyddai'r mater yn cael ei ailadrodd.
8. Cafodd statws presennol safleoedd o fewn y broses hysbysu SoDdGA eu hystyried a'u nodi.

Llywodraethu'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

9. Cafodd y Rhagolwg ei adolygu ac fe gytunwyd arno. Cafodd trefniadau a phwyntiau proses a chynnal ar gyfer cyfarfod cyhoeddus Hysbysu SoDdGA ar gyfer safle Cae Glas eu trafod a'u cadarnhau.

Unrhyw Fater Arall

10. Nododd PrAC fod yr adroddiadau diweddar ar danau gwyllt wedi gwneud sylwadau ar ddifrod i rai SoDdGA. Byddai Swyddog Adfer yn cael ei benodi yn fuan i asesu'r effeithiau a datblygu cynllun adfer. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i PrAC.

## **Diweddariad – Cyfarfod Hysbysu SoDdGA ar gyfer Cae Glas, Wern, 29 Mehefin 2023**

### Trefniadau'r Cyfarfod

11. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Trallwng i ystyried a ddylai'r hysbysiad ar gyfer Cae Glas, Wern, gael ei dderbyn neu ei dynnu'n ôl, yng ngoleuni'r gwrthwynebiad heb ei ddatrys. Roedd PrAC wedi paratoi'n dda drwy hyfforddiant cyfreithiol ymlaen llaw gan Sophie Hoffman, Browne Jacobson, sef cynghorydd cyfreithiol allanol a oedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod.
12. Mae PrAC yn gweithredu dan awdurdod dirprwyedig y bwrdd at y diben hwn.
13. Mae dogfennau a chanllawiau'r broses wedi'u diweddarau a'u diwygio'n sylweddol yn ddiweddar i adlewyrchu trefniadau gweithredu CNC yn llawn.
14. Yn unol â threfniadau llywodraethu diwygiedig y cytunwyd arnynt yn ddiweddar gan y Bwrdd, pwysodd Dr Pete Fox ar PrAC i sicrhau bod unrhyw risg i gworwm yn cael ei lliniaru'n ddigonol. Cymerodd Lesley Jones ran ar ôl disodli Mark McKenna fel aelod o PrAC ar 14 Mehefin 2023.

### Gwybodaeth Safle ac Adroddiad y Swyddog, gan gynnwys argymhelliad ffurfiol

15. Derbyniodd a nododd PrAC Adroddiad y Swyddog. Gwnaed argymhelliad ffurfiol y dylai'r safle yng Nghae Glas, Wern, gael ei ddynodi'n SoDdGA. Mewn trafodaeth, craffodd PrAC ar adroddiad ac argymhelliad y swyddog, gan adolygu agweddau gan gynnwys ffiniau'r safle a'r dystiolaeth o ddiddordeb arbennig a ddarparwyd.
16. Daeth yr adroddiad ar yr ymweliad safle gan yr aelod o PrAC Geraint Davies i law, a chafodd ei dderbyn.

### Gwrthwynebiadau a Sylwadau Eraill

17. Nid oedd y Gwrthwynebydd, na'i gynrychiolydd y cafodd ei bresenoldeb ei dderbyn a'i hysbysu, yn bresennol. Ystyriodd PrAC y gwrthwynebiadau yn eu habsenoldeb.

### Trafodaeth a Phenderfyniad y Pwyllgor

18. Roedd PrAC yn fodlon bod yr wybodaeth a ddarparwyd wedi bod yn destun gwaith craffu digonol a chytunodd yn unfrydol i gadarnhau'r dynodiad SoDdGA heb ei addasu.
19. Cafodd y rhestr o Weithrediadau sy'n Debygol o Niweidio'r Diddordeb Arbennig (OLDSI) ei hadolygu a'i hardystio.

### Camau Nesaf

20. Byddai'r safle'n cael ei gadarnhau fel SoDdGA a byddai'n cael ei hysbysu yn ysgrifenedig. Byddai ymdrechion i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid yn parhau.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	19 Gorffennaf 2023
<b>Teitl y papur:</b>	Fforwm Rheoli Tir Cymru - Diweddariad
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-07-B07
<b>Noddir y papur gan:</b>	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Rheoli Tir Cymru
<b>Cyflwynir y papur gan:</b>	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
<b>Diben y papur</b>	Information
<b>Crynodeb</b>	Crynhoi'r ystyriaethau, y penderfyniadau a'r camau rydych chi am i'r pwyllgor roi sylw iddynt.

## Fforwm Rheoli Tir Cymru

1. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru bedair gwaith y flwyddyn, ac maent yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o Fforwm Rheoli Tir Cymru rannu gwybodaeth, nodi diddordebau cyffredin a chydweithio ar faterion rheoli tir yn strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

## Diweddariad

### Cyfarfod 5 Mehefin 2023

2. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 5 Mehefin 2023.
3. Ymunodd Tristan Hatton-Ellis, CNC, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y gwaith adfer afonydd a wnaed gan CNC i hybu'r boblogaeth o gregyn gleision perlog.
4. Ysgogodd trafodaeth o gyfarfod mis Mawrth gais am wybodaeth am y gwaith addasu arfordirol mae CNC wedi bod yn ei wneud. Ymunodd Nicola Rimmington a Richard Park, CNC, â'r cyfarfod i drafod y newid yn yr hinsawdd a rheolaeth arfordirol yng Nghymru.



5. Cafodd holl aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru gyfle i ofyn i CNC am ddiweddariadau a rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain hefyd.
6. Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 18 Medi 2023.
7. Ar ôl i gofnodion cyfarfodydd gael eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan aelodau, fe'u cyhoeddir ar dudalen Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

## Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

8. Prif ddiben Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru a chynnal sector ffermio ffyniannus yn dilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, dull gweithredu gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddiad), a gweithio ar y cyd ag ystod o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

## Diweddariad

### Cyfarfod 5 Mai 2023

9. Daeth Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru at ei gilydd yn anffurfiol ar 5 Mai yng Nghanolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian i ffarfwelio â Zoe Henderson fel Cadeirydd. Diolchodd y grŵp i Zoe am ei hymrwymiad a'i hymroddiad fel Cadeirydd, cafwyd taith gerdded braf a bu hel atgofion a myfyrio ar gerrig milltir.

### Cyfarfod 15 Mai 2023

10. Ymunodd John Reed, Cyfarwyddwr Avara Foods, â'r cyfarfod i rannu rhai gwersi o'r gwaith y maent wedi'i wneud yn ddiweddar. Mae Avara Foods yn fusnes dofednod mawr sy'n cynhyrchu brwyliaid a thyrswen yn bennaf ar draws Lloegr. Mae Swydd Henffordd wedi bod yn un o'u prif ardaloedd gweithredu, gyda thua 120 o ffermydd yn eu cadwyn gyflenwi o fewn y dalgylch hwnnw. Trafododd John rai o'r pryderon, heriau a materion sy'n ymwneud â llygredd afonydd sydd wedi cymell Avara i gynnal eu hymchwil eu hunain.
11. Gyda newid yn y Cadeirydd, mae cyfle i adolygu'r ffyrdd rydym yn ymdrin â llygredd amaethyddol drwy Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Aeth yr aelodau ati i drafod cyfeiriad y grŵp yn y dyfodol, rhannu syniadau a chynllunio'r rhagolwg dros dro.

### Cyfarfod 19 Mehefin 2023

12. Trefnodd un o is-aelodau Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Sarah Jones, Dŵr Cymru) ymweliad safle â dwy o ffermydd Grŵp Dŵr y Bannau (BWG). Roedd hyn yn ddilyniant uniongyrchol i gyflwyniad gan Dŵr Cymru ym mis Rhagfyr 2022. Diben yr ymweliad

oedd arddangos y dull cydweithredol rhwng Dŵr Cymru a'r BWG i ddiogelu ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd dŵr yfed. Clywodd y grŵp yn uniongyrchol gan aelodau'r BWG a gwelwyd rhai camau lliniaru yn cael eu treialu yn y fan a'r lle. Roedd rhai o'r prif bynciau a drafodwyd yn ystod yr ymweliad yn cynnwys:

- Clywed am y Rhaglen Arloesi Carbon Ewropeaidd (EIP) y mae'r BWG wedi bod yn rhan ohoni
- Gweld yr arddangosiad o'r orsaf dywydd ar y fferm a'r ap
- Mapio llif hydrolegol a ddefnyddir ar y fferm i nodi risgiau a thynnu sylw at gyfleoedd
- Cyflwyniad i'r treial 'Datblygu clustogfeydd cynhyrchiol' yn y fan a'r lle

Ar ddiwedd yr ymweliad, archwiliodd y grŵp gyfleoedd i gydweithio i ddatblygu rhai o'r dulliau a'r treialon hyn ymhellach.

13. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 10 Gorffennaf 2023.

14. Ar ôl i gofnodion cyfarfodydd gael eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan aelodau, fe'u cyhoeddir ar dudalen Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

# Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	19 Gorffennaf 2023
Teitl y Papur:	Adroddiad Perfformiad Ariannol
Cyfeirnod y Papur:	23-07-B09
Noddir y papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Paratowyd y papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynir y papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid
Diben y papur:	Cymeradwyaeth (cyllideb wreiddiol derfynol) / Trafodaeth (Perfformiad Ariannol)
Crynodeb	<p>Cymeradwyo:</p> <p>Y gyllideb wreiddiol derfynol o £266.3 miliwn.</p> <p>Craffu:</p> <p>Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mai 2023.</p>

## Cefndir

1. Mae papur ar wahân ar gyfer cymeradwyaeth.

### Perfformiad Ariannol hyd at 31 Mai 2023

2. Mae'r adroddiad Perfformiad Cyllid yn rhoi manylion am gynnydd ar draws y gwahanol fathau o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol mewn perthynas â'r canlynol:

- Newidiadau i'r gyllideb wreiddiol agoriadol.
- Perfformiad hyd at ddiwedd mis Mai 2023, o gymharu â'r gyllideb wreiddiol.
- Risgiau i ni allu gwario o fewn ein lefelau cyllid.
- Sylwebaeth drwy eithriad ar sut rydym yn symud ymlaen yn erbyn y gyllideb wreiddiol ar gyfer y gwahanol fathau o wariant.

## Risgiau a chyfleoedd

3. Mae gennym risg yn y Gofrestr Risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 'gwariant yn ystod y flwyddyn'. Mae hyn hefyd yn cysylltu ag SR01 (Cyllid Annigonol – Tymor Canolog). Hyd yn oed gyda chyllideb fwy na'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r rhagolygon presennol yn heriol, gyda chostau staff eisoes o flaen y proffil.
4. Ar hyn o bryd, mae ein gor-raglennu canolog yn £3.5 miliwn. Rydym yn edrych ar ffyrdd o leihau hyn, ond bydd yn her. Byddwn yn diweddarau'r Bwrdd ar y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chyflog.
5. Mae'r goblygiadau ehangach fel a ganlyn:
  - (a) **Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Mae gennym risg yng Nghofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
  - (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n Hamcanion Llesiant.

## Camau Nesaf

6. Rydym yn annog rheolwyr cyllidebau a phrosiectau i hysbysu Cyllid am unrhyw newidiadau i'r rhagolygon y gellir eu dychwelyd yn ganolog.
7. Byddwn yn parhau i ymgymryd â'n prosesau Cyllid arferol ac adolygu'r risgiau o fewn y gyllideb gydol y flwyddyn. Mae rhaglenni megis Trawsnewid Busnes, Llifogydd a Natur ac Argyfyngau Cyfalaf yn cael eu hail-ragfynegi bob mis.
8. Cynhyrchir yr adroddiad hwn bob dau fis ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

## Argymhelliad

9. Y Bwrdd i gymeradwyo newidiadau i'r gyllideb agoriadol, gan gynyddu o £257.7 miliwn i £266.3 miliwn.
10. Y Bwrdd i graffu ar berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mai 2023.

## Mynegai i'r Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol



**NRW Board  
19 July 2023  
Finance Report**

---

## Content



The finance report has been considered by the Executive Team. The Finance Committee have also received the report, but at the time not all the financial performance pages were available.

The Executive Team have also asked for further work to be undertaken on a lease surrender that was presented to finance committee, but is not included within this report.

### Approval

1. Final Original Budget

### Scrutiny

2. Financial Performance Report

## CONFIRMED Opening Budget for 2023-24 is £266.3m



### 2023-24 EXPENDITURE BUDGET

Directorate	Staff - Trajectory £000	Workforce Recharges £000	Other Staff £000	Non Staff £000	Revenue Projects £000	Capital Projects £000	Total £000
Communications, Customer & Commercial	6,927	-1,008	197	15,634	0	0	21,750
Corporate Strategy & Development	7,375	-174	1,311	1,894	160	0	10,566
Evidence, Policy & Permitting	36,119	-5,965	891	29,295	4,010	5,241	69,591
Finance & Corporate Services	7,298	-386	779	19,409	1,400	10,426	38,926
Operations	64,789	-10,092	2,222	22,972	7,083	38,470	125,444
<b>Total Expenditure Budget</b>	<b>122,508</b>	<b>-17,625</b>	<b>5,401</b>	<b>89,204</b>	<b>12,653</b>	<b>54,137</b>	<b>266,278</b>

### 2023-24 INCOME BUDGET

Funding Source	Capital £000	Revenue £000	Total £000
Grant in Aid: Non Flood	2,400	59,683	62,083
Grant in Aid: Flood	22,000	24,500	46,500
Grant in Aid: Additional In-year inc. Grants	25,344	18,179	43,523
Commercial: Timber Sales	0	36,132	36,132
Commercial: Energy Delivery Receipts	0	21,147	21,147
Commercial: Other	0	4,082	4,082
Charges	0	44,416	44,416
External Income	0	8,395	8,395
<b>Total Income Budget</b>	<b>49,744</b>	<b>216,534</b>	<b>266,278</b>

- **As agreed with Executive Team and the Board in May:**
  - We have updated the 2023-24 opening budget position to reflect funding changes and the distribution of programme budgets, and
  - These changes were approved by the Chief Executive and the Executive Directors of Finance and Corporate Services prior to issuing the revised Delegation Letter.
- **Revised Delegation Letter issued 30 May 2023.**
- **Revised budget packs issued 8 June 2023.**
- **We will monitor in-year performance against the CONFIRMED opening budget.**

## Changes made: Delegation Letter v1 and CONFIRMED Opening Budget



	Delegation Letter v1 April 2023 £m	CONFIRMED Opening Budget May 2023 £m	Change to Opening Budget £m
<b>Income</b>			
Grant in Aid inc. Grants	146.6	152.1	5.5
Charges	44.9	44.4	-0.5
Commercial	57.9	61.4	3.5
Externally funded	8.3	8.4	0.1
<b>Total</b>	<b>257.7</b>	<b>266.3</b>	<b>8.6</b>

Describing the changes	£m	
Grant in Aid: Welsh Government NaCE grant	3.5	Increased from £22.1m to £25.6m. Includes £2m for reservoir capital works.
Grant in Aid: Flood revenue	2.0	Increase in the baseline from £22.5m to £24.5m (with Head of Flood to recommend allocation).
Charge income	-0.5	Reflects the delay in implementing SRoC changes .
Commercial: Timber income	3.0	The forecast has been increased from £33m to £36m based on a strong start to the year (volume). We have not allocated an extra spend budget. The Head of Commercial will re-forecast the position after the July e-Sale; if the market remains strong we will allocate the budget however, if things slow down, we will reduce the income budget with no impact on the expenditure budget (assuming that it doesn't fall below £33m).
Commercial: Wind energy receipts	0.5	Updated to reflect revised forecast - an increase in surrenderable receipts.
Externally funded projects	0.1	Updated to reflect revised forecast.
<b>Var between Board Paper (March) &amp; Del Letter</b>	<b>8.6</b>	



## Finance Performance – May 2023



### Update will cover:

1. Financial performance as at the end of May.
2. There is no forecast update, as revised opening budgets were only issued at the beginning of June.
3. We can also provide more information on significant budgets within the report - will ask for feedback from Executive Team.

### Messages:

1. Even though the budget is £266.3m, an increase from last financial year, all indications are that this year will be tight and the risk that needs to be managed is not overspending, rather than underspending.
2. The Planning and Resources Group has been established which will make recommendations to the Executive Team on re-distribution of resources whilst Executive Team will consider overall performance against budget. Obvious issues at the moment are Water Quality and any potential liabilities regarding IR35 (if they arise in this financial year).
3. The lessons learnt exercises for both Land Stewardship and Flood capital are progressing and expect to report to Executive Team in July as well as Finance and Flood Committees.
4. As part of the budget, we have allowed for central over-programming of £3.5m – which is going to be a challenge.
5. At the end of May, some concerns have been raised around the affordability of staff budgets, where we are ahead of profile.
6. The outlook is looking positive to achieve the timber income budget of £36m and we have not yet allocated £3m of that to pressures.

## Financial Performance - Income



INCOME by Account Type	Actual	Original Budget	Variance	Original Budget	Remaining Budget	Commentary
	YTD	YTD	YTD	Full Year	Full Year	
	£m	£m	£m	£m	%	
Charges	2.0	1.9	0.1	43.8	95%	Overall charging schemes are in line with budget. The full year budget reflects the delay in implementation of Strategic Review of Charges.
Commercial	10.5	10.3	0.3	61.4	83%	Timber income budget for the year currently stands at £36.1m, with income invoiced to date at £6.0m. This is a strong start to the year, £3m of this budget is yet to be allocated, until we are confident we can achieve the full £36m target. This will be considered by the Planning and Resources Group in July.
European & external	0.1	0.5	-0.4	8.4	99%	The full year budget is an accurate reflection of the programme, but the profiles of the various projects are being reassessed.
Grant in aid	29.8	27.9	1.9	152.1	80%	Grant in Aid and WG Grants are slightly ahead of profile, but the forecast remains £152.1m.
Use of Reserves	0.0	0.0	0.0	0.6	100%	
<b>TOTAL: NRW</b>	<b>42.5</b>	<b>40.6</b>	<b>1.9</b>	<b>266.3</b>	<b>84%</b>	

## Financial Performance - Expenditure




EXPENDITURE	Actual	Original Budget	Variance	Original Budget	Remaining Budget	Commentary
by Account Type	YTD £m	YTD £m	YTD £m	Full Year £m	Full Year %	
Staff	18.1	17.5	-0.6	110.3	84%	<p>Pay costs are ahead of budget (£0.3m) due mainly to staff numbers being ahead of our vacancy rate assumptions. There are budgets awaiting distribution which may mitigate this but it's likely that some Directorates will have a net pressure which will need to be addressed.</p> <p>Training costs are ahead of profile although 85% of the budget remains. This was flagged by the Executive Director of Corporate Strategy as requiring more funding and this will need to be considered by the Planning and Resources Group.</p> <p>Whilst travel &amp; subsistence is broadly in line to budget, a number of Directorates have expressed concern that they are likely to exceed their current allocation.</p> <p>Staff costs will be further reviewed during August &amp; September as part of the post by post trajectory forecast.</p>
Non Staff	7.1	7.1	-0.0	89.2	92%	<p>Overall, non staff costs are in line with the year to date profile. There are relatively minor variances between directorates. Some of the key points are:</p> <p>The recent forest fires will have an impact on the incident response budget in EPP and we have received an unfunded bid for review at the next Planning and Resources Group.</p> <p>We have concluded the information gathering stage of the Land Stewardship lessons learnt exercise. This will be considered at a future ET and Finance Committee meeting. There is an unallocated budget within EPP (Head of Land Stewardship) that is awaiting distribution to Operations for Land Management. Currently Land Stewardship activities within Operations are £0.1m ahead of profile.</p> <p>There are some profiling adjustments required which will be assessed during June and July.</p>
Revenue Projects	1.1	0.4	-0.7	12.7	91%	<p>This is predominantly linked to externally funded LIFE projects within Operations (£0.2m), Business Transformation (£0.1m), Grants &amp; Partnerships (£0.1m) &amp; SAC Rivers (£0.1m). The profiles will be revised in the following months, with limited risk to the full year budget.</p> <p>The NaCE Programme costs are inline with their respective budget.</p>
Capital Projects	4.3	5.0	0.7	54.1	92%	<p>Variance linked to three key programmes; Flood Risk, NaCE and Business Transformation.</p> <p>The Flood capital programme is ahead of profile by £0.6m, predominantly linked to over programming, which current stands at £11.6m. This is a considerable proportion of the programme and will need to be closely managed and reduced over the following months.</p> <p>The NaCE programme is currently behind profile by £0.6m, linked to Metal Mines &amp; Water Quality projects. This programmed is over committed by 20% which is reasonable at this stage of the financial year. The reservoir programme is funded from within the Water Quality allocation and there is capacity to spend more within that programme if the Water Quality projects slip.</p> <p>The Business Transformation element is currently £0.8m behind profile, however the overprogramming stands at £3.1m, whilst the detail of the programme is being finalised. There is £1.7m awaiting PMO approval. The budget allocation will be reviewed again in light of the possible implications of the IR35 situation with HMRC.</p>
<b>TOTAL: NRW</b>	<b>30.7</b>	<b>30.1</b>	<b>-0.6</b>	<b>266.3</b>	<b>88%</b>	

## Financial Performance – Expenditure Trends



### EXPENDITURE TRENDS



#### Commentary:

As expected we are seeing an increase in expenditure this financial year compared to the same point in previous years. Spend in 2023-2024 was £30.7m compared to £27.8m in 2022-2023 at the end of May. The budget for this year has increased to £266.3m which is £19.4m greater than last financial year.

## Financial Performance – Staff Costs



STAFF COSTS	Actual	Original Budget	Variance	Variance	Original Budget	Commentary
by Account Type	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	Full Year £m	
Staff Costs	20.7	22.6	1.9	8%	135.2	An overspend on staff pay related costs of (£0.3m) at the end of May. This is mainly due to the vacancy level (7%) currently running below that assumed within the 2023/24 budget (8%) and a number of vacancies being project funded posts.
Pension Adjustment	-1.2	-1.2	0.0	0%	-7.0	
Vacancy Turnover Budget	0.0	-1.8	-1.8	100%	-10.4	The value of overprogramming posts currently stands at £1.7m, mainly where we are awaiting confirmation of grant funding from Welsh Government and the outcome from the Strategic Review of Charges.
Overprogramming Budget	0.0	-0.1	-0.1	100%	-1.7	
Directorate Staff Budget Undistributed To Position	0.0	-0.0	-0.0	100%	3.2	There is currently £3.2m of Directorate staff budget awaiting distribution to posts. This is mainly made up of funding for Marine and Integrated Workforce posts within Operations along with Flood, Regulation & Permitting posts within EPP.
Central Pay Contingency	0.0	0.0	0.0	0%	3.3	There is £3.3m within the central pay contingency which covers a potential 2% pay award (plus another 1% contingency).
Workforce Recharges	-2.5	-2.9	-0.4	12%	-17.6	Relates to vacancies on project funded posts
<b>Sub Total - Staff Trajectory Costs</b>	<b>17.1</b>	<b>16.7</b>	<b>-0.3</b>	<b>-2%</b>	<b>104.9</b>	
Other Staff Costs	1.0	0.8	-0.3	-35%	5.4	An overspend of (£0.3m) on other staff costs, mainly on temporary contractors (£130k), training (£78k) and mobile phone costs (£50k).
<b>TOTAL: NRW</b>	<b>18.1</b>	<b>17.5</b>	<b>-0.6</b>	<b>-3%</b>	<b>110.3</b>	

## Financial Performance – Staff Trajectory

Current Vacancy Level (when comparing current staff to budgeted structure)	Current Month		Previous Month		Change	Commentary
	fte	%	fte	%	fte	
Budgeted Structure	2,601.6		2,598.5		3.1	<p>As reported in the staff cost summary, we currently have a vacancy rate of 7% against an assumed 8%. This is mainly impacting Operations and EPP. It's possible that the position will be mitigated through (1) staff in unbudgeted posts and (2) staff budgets awaiting distribution.</p> <p>Staff in unbudgeted posts includes posts funded from vacancy turnover (46.9fte). This is where Directorates are proactively reprioritising staff and other savings. So, there is a net figure of 37.7 fte that still need to be resolved. This will be assessed through the trajectory forecasting exercise in August and September. The Planning and Resources Group can also consider releasing more funding to staff costs to mitigate.</p>
Staff in Structure	2,416.3		2,398.9		17.4	
<b>Current Vacancy Level</b>	<b>185.3</b>	<b>7.1%</b>	<b>199.6</b>	<b>7.7%</b>		
<b>Analysis of Vacancy Level</b>						
Vacant Budget Posts	255.3	9.8%	262.9	10.1%	-7.6	
Impact of Part Time Staff in Budget Posts	14.6	0.6%	21.0	0.8%	-6.4	
Staff in Unbudgeted Posts	-84.6	-3.3%	-83.9	-3.2%	-0.7	
<p><b>*** NOTE****</b></p> <p>Please note that the vacancy level in this slide is based on current vacancy level for this month based on staff numbers. When comparing this to the financial variance there will be differences relating to:</p> <p>1) Financial Performance in the previous slide is cumulative and therefore subject to fluctuations in actual vacancy level over previous months.</p> <p>2) Timing delay in agency staff payments.</p> <p>3) Variances caused by spread on staff in pay points compared to budget level at pay point 3.</p> <p>4) Amendment to in year financial turnover targets to manage underspend from previous months.</p>						

## Financial Performance – Revenue Projects



Revenue Projects	Actual	Original Budget	Variance	Original Budget	Remaining Budget	Commentary
by Programme	YTD	YTD	YTD	Full Year	Full Year	
	£m	£m	£m	£m	%	
External Funded	0.5	0.2	-0.3	4.5	88%	The current over spend predominantly relates to LIFE projects within Operations. The profiles will be revised in the following months, with limited risk to the full year budget. The full year budget of £4.5m is split between LIFE projects (£3.9m) and WG Grants (£0.6m).
Internal Funded	0.2	0.1	-0.2	3.2	93%	The current over spend is predominantly linked to a number of Land Stewardship projects within Operations and the SAC Rivers project in EPP. Within the full year budget of £3.2m, £1.2m relates to Land Stewardship activities, £0.5m SAC Rivers and £0.8m awaiting PMO/project setup.
NaCE	0.2	0.1	0.0	2.0	92%	The current May position is within £20k of the planned spend, with limited risk on delivering in line with the £2m full year budget. We have received confirmation of the revenue / capital split of the Nature Networks grant allocation and we will need to vire budgets between revenue and capital.
Other	0.0	0.0	0.0	0.1	100%	No spend to date. Funding linked to the flood revenue programme.
Business Transformation	0.1	0.0	-0.1	0.9	86%	The current position is slightly ahead of plan, linked to the Cardiff Opportunities project within Finance & Corporate Services. Budget profiles will be revised in the following months, with limited risk to the full year budget.
Grants	0.1	0.0	-0.1	2.0	94%	The Grants programme is currently ahead of profile at the end of May. Due to the nature of the programme there will always be a possible risk of under spend if the applicant is unable to fully meet the conditions of the grant, however, at this moment in time we anticipate the full budget being utilised.
<b>TOTAL: NRW</b>	<b>1.1</b>	<b>0.4</b>	<b>-0.7</b>	<b>12.7</b>	<b>91%</b>	

## Financial Performance – Capital Projects



Capital Projects by Programme	Actual YTD £m	Original Budget YTD £m	Variance YTD £m	Original Budget Full Year £m	Remaining Budget Full Year %	Commentary
Business Transformation	0.6	1.4	0.8	5.7	90%	The Business Transformation Programme now includes the new D&I structure, which consists of Future Technology, D&I Rundown and ICT Strategic. The overall budget stands at £5.7m, however, there is £2.7m to be allocated from the internal funded project category, once the projects have been assured by PMO and project codes setup. The budget for Business Transformation as a whole is set at £11.8m, £8.4m Capital and £3.4m Revenue. Within the capital programme there is overprogramming of £3m. We expect this to reduce each month as we move through the year. A bespoke report is being developed to extract all activity; project and non project work, across the programme. The budget allocation will be reviewed again in light of the possible implications of the IR35 situation with HMRC.
External Funded	0.3	0.2	-0.1	4.5	93%	The programme is slightly ahead of profile at the end of May. A full review of all projects across the programme will be undertaken over the next two months, once the WEFO claims have been submitted for the end of June deadline. No major risks have been highlighted, other than a possible underspend on the Sands of Life Projects. Finance will continue to monitor this risk closely with the LIFE Programme Manager.
Flood Risk	1.6	1.0	-0.6	17.0	91%	The Flood Capital Programme stand at £17m which includes an overprogramming of £12m. The May position shows costs ahead of profile by £0.6m, predominantly linked to over programming. This is a considerable proportion of the programme and will need to be closely managed and reduced over the following months, to come inline with the overall allocation.
Internal Funded	1.0	1.0	0.0	7.7	87%	Current performance at the end of May is in line with budget. The full year allocation is linked to 4 key areas. (1) £2.7m for Business Transformation, awaiting a mixture of PMO approval and project codes to be setup. Once the project codes have been setup, this will move under the overall Business Transformation umbrella. (2) £1.8m for compensatory planting, funded by option fees. (3) £1.2m for the Water Resources programme and (4) £1.9m linked to Reservoir Safety. With the reservoir programme now being funded from within the NaCE programme under Water Quality, this will move under NaCE for future reporting.
NaCE	0.9	1.5	0.6	19.3	95%	The NaCE programme is currently behind profile by £0.6m, linked to the Metal Mines & Water Quality projects. This programmed is over committed by 20% which is reasonable at this stage of the financial year. The reservoir programme is now funded from within the Water Quality allocation and there is capacity to spend more within that programme if the Water Quality projects slip. There are still a number of projects awaiting governance approval. Based on the current profiles, the final 3 months of the year hold 50% of the full year budget. Overprogramming will be managed down through the year to equal the funding available.
<b>TOTAL: NRW</b>	<b>4.3</b>	<b>5.0</b>	<b>0.7</b>	<b>54.1</b>	<b>92%</b>	





## Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	19 Gorffennaf 2023
Teitl y Papur:	Dangoswrdd Perfformiad Cynllun Busnes 2022-23 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol 2022/23
Cyfeirnod y Papur:	23-07-B10
Noddir y papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Paratowyd y papur gan:	Kirsten Hughes, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad
Cyflwynir y papur gan:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Diben y papur	Cymeradwyo Dangoswrdd Perfformiad Cynllun Busnes Ch4 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch4
Crynodeb	Rydym yn croesawu gwaith craffu Bwrdd CNC ynghylch perfformiad Ch4 a sefyllfa diwedd blwyddyn adroddiad Dangoswrdd Perfformiad y Cynllun Busnes a'r Adroddiad Perfformiad Mewnol

## Mater

1. Mae chwarter olaf cylch adrodd perfformiad Cynllun Busnes 22-23 wedi'i gwblhau. Mae'r papur hwn yn rhoi cyfle i Fwrdd CNC graffu ar berfformiad.

## Cefndir

2. Dangoswrdd Perfformiad y Cynllun Busnes yw un o brif ffyrdd Bwrdd CNC o graffu ar waith cyflawni. Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â Chynllun Busnes 2022/23, gan weithio gyda Bwrdd CNC, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain. Mae'r Cynllun Busnes blynyddol yn ymwneud â'n Cynllun Corfforaethol hyd at fis Mawrth 2023; cyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol newydd ym mis Mawrth 2023.
3. Gellir gweld Adroddiad Perfformiad Dangoswrdd y Cynllun Busnes yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys:
  - **Dangoswrdd** sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn erbyn mesurau 2022/23 sydd wedi'u nodi gan y blaenoriaethau strategol a adlewyrchir yn ein Cynllun Busnes.
  - **Mynegai pynciau** a nodir yn ôl blaenoriaeth strategol i helpu i lywio'r adroddiad.

- **Crynodeb ar gyfer pob Pwnc** sy'n adlewyrchu cynnydd ar draws y maes gwaith.
- **Manylion ar gyfer pob mesur penodol** gyda sefyllfa diwedd blwyddyn.

4. Gellir gweld yr Adroddiad Perfformiad Mewnol yn Atodiad 2 ac mae'n cynnwys 11 mesur â ffocws mewnol.

## Asesiad

5. Gofynnir i Fwrdd CNC graffu ar Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes a'i gymeradwyo, gan nodi'r materion allweddol isod. Ceir rhagor o fanylion yn yr adroddiad ei hun (Atodiad 1):

	Chwarter 1 (1 Ebrill – 30 Mehefin 2022)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf – 30 Medi 2022)	Chwarter 3 (1 Hydref – 31 Rhagfyr 2022)	Diwedd Blwyddyn Chwarter 4 a Ragwelir (hyd at 31 Mawrth 2023)	Diwedd Blwyddyn Gwirioneddol (hyd at 31 Mawrth 2023)
Coch	1	2	2	2	0
Amherthnasol	1	0	1	0	0
Oren	6	12	12	11	12
Gwyrdd	23	17	16	18	19
<b>Cyfanswm</b>	<b>31</b>	<b>31</b>	<b>31</b>	<b>31</b>	<b>31</b>

6. Mae 12 mesur **Oren** ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd y byddai dau fesur yn **Goch** ar ddiwedd y flwyddyn ond mae gwaith drwy Ch4 wedi eu dychwelyd i Oren. Y rhain yw:

- **Llunio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMPs)**

Ein carreg filltir olaf ar gyfer y mesur hwn yw cyhoeddi pob FRMP (ac FRMPs yn cael eu hymgorffori mewn Busnes fel Arfer ac yn cael eu monitro). Nid ydym wedi cwblhau'r gweithgarwch carreg filltir hwn. Rydym wedi drafftio'r FRMP ar gyfer Cymru, gyda chymorth Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), ac wedi cyhoeddi'r rhain ar gyfer ymgynghoriad allanol ar 1 Mawrth 2023, gyda ffenestr ymgynghori statudol 12 wythnos. Rydym hefyd wedi briffio rhanddeiliaid allweddol ar y dogfennau. Mae'r mesur hwn yn **Oren** ar ddiwedd y flwyddyn gan nad ydym wedi cyflawni'r garreg filltir olaf yn llawn, ond rydym wedi cynhyrchu'r FRMP (a'r SEA) ac maent yn destun ymgynghoriad allanol. Gwnaethom nodi bod hwn yn **Goch** yn Ch3 gan nad oeddem yn sicr y byddai'n destun ymgynghoriad yn Ch4, ond rydym wedi cyflawni hyn.

- **Cyflwyno rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol**

Ein carreg filltir olaf ar gyfer y mesur hwn yw cwblhau Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Dyfrdwy a Hafren a nodi gofynion statudol ar gyfer ansawdd dŵr yn 2022/23 (a nodi gofynion statudol ar gyfer ansawdd dŵr i'w cyflwyno yn 2023/24). Rydym wedi cwblhau Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Dyfrdwy a Hafren ac wedi cwblhau ein

cymeradwyaeth fewnol o'r adolygiad Trin Dŵr Gwastraff Trefol (UWWT) yn Ch4, er mai mater i CNC yw ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda'n hargymelliad. Mae gwaith pellach wedi'i gwblhau ar yr Adolygiad Maethynnau, ac rydym yn disgwyl cwblhau allbynnau yn ystod Ch1 2023/24. Mae'r mesur hwn yn **Oren** ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r gwaith sy'n weddill ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau o fewn Ch1 2023/24.

7. Mae 19 o fesurau yn **Wyrdd** ar ddiwedd y flwyddyn. Dyma rai i'w nodi:

- **Cynnal asedau perygl llifogydd mewn lleoliadau risg uchel yn y cyflwr targed**

Ein carreg filltir olaf ar gyfer y mesur hwn yw 98% o asedau perygl llifogydd mewn systemau risg uchel yn y cyflwr targed. Rydym wedi cyflawni hyn ac mae'r mesur hwn yn **Wyrdd**. Rydym ar 98.3% ar ddiwedd mis Mawrth 2023, sy'n well na'r hyn a ragwelwyd yn Ch3.

- **Cyflawni camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer rhywogaethau sy'n dirywio neu ar fin diflannu**

Ein carreg filltir olaf ar gyfer y mesur hwn yw datblygu prosiectau penodol sy'n dangos ein gwaith yn y maes hwn (a chyflwyno cais cam dau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Natur am Byth). Rydym wedi cwblhau'r gweithgarwch carreg filltir hwn. Rydym wedi cyflwyno cais cam datblygu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac wedi sicrhau'r rhan fwyaf o'r arian cyfatebol gan ymddiriedolaethau elusennol, sefydliadau a chyrff sector cyhoeddus eraill. Mae'r mesur hwn yn **Wyrdd** ar ddiwedd y flwyddyn.

- **Ardal o goetir newydd a grëwyd ar Ystad CNC**

Ein carreg filltir olaf ar gyfer y mesur hwn yw 150 hectar ychwanegol o dir wedi'i gaffael/nodi ar gyfer creu coetir (gan gyfrannu at gyfanswm o 350 hectar dros oes y rhaglen) ynghyd â 150 hectar o goetir a grëwyd yn 2022/23. Rydym wedi sicrhau chwe safle sy'n dod i gyfanswm o 207 hectar. Y tymor plannu hwn, rydym wedi sefydlu pedwar safle sy'n creu ardal gros o 164 hectar o goetir, gan arwain at 95 hectar o orchudd canopi newydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal rhywfaint o ymgysylltiad proffil uchel â rhanddeiliaid, gyda chanlyniadau cyffrous, ac rydym hefyd wedi gweithio ar yr 84 hectar o goetir newydd a blannwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau ei fod yn sefydlu'n llwyddiannus. Mae'r mesur hwn yn **Wyrdd** ar ddiwedd y flwyddyn.

8. Gofynnir hefyd i Fwrdd CNC graffu ar yr Adroddiad Perfformiad Mewnol a'i gymeradwyo, gan nodi'r materion allweddol isod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad 2.

	Chwarter 1 (1 Ebrill – 30 Mehefin 2022)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf – 30 Medi 2022)	Chwarter 3 (1 Hydref – 31 Rhagfyr 2022)	Chwarter 4 a Ragwelir (hyd at 31 Mawrth 2023)	Diwedd Blwyddyn Gwirioneddol (hyd at 31 Mawrth 2023)
--	--	--	--	---	--

Coch	1	1	3	1	0
Oren	5	3	1	2	3
Gwyrdd	5	7	7	8	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>11</b>	<b>11</b>	<b>11</b>	<b>11</b>	<b>11</b>

9. Isod mae'r mesurau i'w nodi ar gyfer Ch4. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at Atodiad 2.

- Gwelwyd gwelliant mewn **adroddiadau am ddamweiniau iechyd a diogelwch fu bron â digwydd** gan godi i Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn (Coch yn yr adroddiad diwethaf), gyda chynnydd yn nifer y damweiniau fu bron â digwydd a adroddwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gydol Ch4, gwnaethom barhau i godi proffil y gwaith hwn i bob uwch reolwr ac Arweinydd Tîm, gan atgyfnerthu pwysigrwydd adrodd am ddamweiniau fu bron â digwydd i osgoi damweiniau go iawn rhag digwydd. Ar y cyfan, ar gyfer 2022/23 bu 250 o adroddiadau am ddamweiniau fu bron â digwydd (i fyny o 220 ar gyfer 2021/22) a byddwn yn parhau i hyrwyddo a rheoli'r mesur pwysig hwn o fis Ebrill ymlaen yn unol ag adroddiadau yn erbyn y Cynllun Corfforaethol newydd.
- Fel y rhagwelwyd yn ein hadroddiad diwethaf, mae adrodd am **Absenoldeb** yn Oren ar ddiwedd y flwyddyn, sef 4.4%. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliant ar ddiwedd Ch3 (Coch, ar 5.1%). Mae cynllun gweithredu wedi'i sefydlu mewn perthynas ag absenoldeb salwch ac mae newidiadau'n cael eu gwneud i systemau i helpu i nodi rhesymau dros salwch a darparu cymorth wedi'i dargedu'n well lle bo hynny'n briodol.
- Mae **ceisiadau Mynediad at Wybodaeth** ('ATIs') yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod yn Oren ar ddiwedd y flwyddyn, gyda phedwar ymateb y tu allan i'r amserlen hon dros y chwarter diwethaf. Cwblhawyd 92% o'r holl ATIs a Cheisiadau am Wybodaeth Amgylcheddol o fewn 20 diwrnod yn ystod y flwyddyn.
- Mae **perfformiad taliadau** i'n cyflenwyr yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn (99%), i fyny o 95% ar gyfer adroddiad Ch3. Cafodd dros 3,000 o anfonebau eu prosesu ym mis Mawrth, mwy na 50% yn fwy na'r cyfanswm misol arferol. Cynyddodd cyfartaledd blynyddol anfonebau i 94.1% eleni.

## Risgiau, parodrwydd i dderbyn risg a chyfleoedd

10. Os nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir yn adlewyrchiad cywir o'r cynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Busnes, a gweithrediad CNC fel sefydliad, ni fydd y Tîm Gweithredol na Bwrdd CNC yn gallu cyflawni eu rôl o graffu ar gyflawniad.

## Goblygiadau ehangach

11. **Cyllid:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol o ran darparu'r adroddiad perfformiad ei hun, ond mae'n amlwg bod rhan o'n hadolygiad chwarterol yn ystyried

dyraniad ein hadnoddau ac felly mae cysylltiad agos rhwng papurau cyllid a pherfformiad.

12. **Cydraddoldeb:** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol yn cwmpasu ein Datganiad Llesiant, Cynllun Busnes 2022/23 a'r Cynllun Corfforaethol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023

## Camau Nesaf

13. Yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd CNC, bydd y ddau Adroddiad Perfformiad yn cael eu trafod â Llywodraeth Cymru a'u cyflwyno i'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Argymhelliad

14. Gofynnwn i Fwrdd CNC gymeradwyo sefyllfa Ch4 a diwedd blwyddyn adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes a'r Adroddiad Perfformiad Mewnol.

## Mynegai i'r Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes Ch4

Atodiad 2 – Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch4

## Proses Gymeradwyo / Ymgynghori

<b>Proses gymeradwyo/ymgynghori</b>	Kirsten Hughes, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad
<b>Cyfrifol:</b>	Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
<b>Atebol:</b>	Bwrdd CNC
<b>Ymgynghorwyd:</b>	Y Tîm Arwain (Perchnogion y Mesur) Y Tîm Gweithredol
<b>Hysbyswyd:</b>	Y Tîm Arwain Y Grŵp Cynllunio ac Adnoddau Y Tîm Gweithredol Bwrdd CNC

## Annex 1: Business Plan Performance Dashboard 22/23 (Q4)

The green, amber or red status\* of each of our [Business Plan](#)'s dashboard measures.

### Responding to the climate emergency and the nature emergency...

Measure	Year end	Page
